# CBAC Lefel 1/Lefel 2 TAAU Chwaraeon a Hamdden

## Manyleb Ddrafft

I'w addysgu o fis Medi 2027
Dyfarniad Cyntaf 2029

Manyleb DRAFFT yw hon. Felly, dylai canolfannau ddisgwyl rhai newidiadau yn y fersiwn derfynol a gyhoeddir ym mis Medi 2026.

DRAFFT

| | |
|---|---|
| Teitl y cymhwyster | CBAC Lefel 1/Lefel 2 TAAU Chwaraeon a Hamdden |
| Amcanion y cymhwyster | Cyflwyno gwybodaeth a sgiliau ymarferol sector-benodol i ddysgwyr sy'n eu paratoi ar gyfer astudiaeth bellach neu brentisiaethau, gan feithrin datblygiad personol ac ymgysylltu drwy ddysgu cymhwysol. |
| Cod Cymhwyster CBAC | |
| Rhif QiW | |
| Grwpiau oedran cymeradwy | 14-16, 16-19, 19+ |
| Addysgu am y tro cyntaf | Medi 2027 |
| Ardystio am y tro cyntaf | Haf 2029 |

| Fersiwn | Disgrifiad | Dyddiad |
|---|---|---|
| | | |
| Gall ein manylebau newid dros amser. Bydd CBAC yn rhoi gwybod i ganolfannau am unrhyw ddiwygiadau a bydd y fersiwn diweddaraf o'r fanyleb ar y wefan bob amser. | | |

DRAFT

Mae'r fanyleb hon yn bodloni gofynion y dogfennau rheoleiddio canlynol a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru:

- Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau TAAU sy'n nodi'r gofynion ar gyfer cymwysterau TAAU a gymeradwywyd i'w haddysgu gyntaf o fis Medi 2027 a thu hwnt.
- Amodau Cydnabod Safonol sy'n cynnwys y rheolau y mae'n rhaid i bob corff dyfarnu a'u cymwysterau eu bodloni wrth gynnig cymwysterau i ddysgwyr yng Nghymru.

**Hawlfraint**
© WJEC CBAC Limited 2026.

## Grymuso dysgwyr, cefnogi athrawon

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae gennym fwy na 75 mlynedd o brofiad yn cyflwyno cymwysterau o safon y gellir ymddiried ynddynt ac yn cefnogi dysgwyr, addysgwyr, a chyflogwyr ledled Cymru.

Darparwn amrywiaeth eang o gymwysterau dwyieithog sy'n hygyrch, deniadol, ac wedi'u cynllunio i fodloni anghenion dysgwyr heddiw.

I ategu ein cymwysterau mae gennym dimau pynciol arbenigol, adnoddau o safon uchel, a chefnogaeth arbenigol, ymatebol. Y cydweithio agos ag ysgolion, colegau, consortia rhanbarthol, arbenigwyr sector a Cymwysterau Cymru sy'n llywio ac yn tywys ein gwaith.

Ni yw'r unig gorff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau ym mhob cyfres o'r hyn sydd ar gael fel Cymwysterau Cenedlaethol 14-16. Rydym yn falch iawn felly o fod â rôl allweddol yn cefnogi dyhead Llywodraeth Cymru i wneud addysg yng Nghymru yn rhywbeth y gall y genedl fod yn falch ohono. Mae'n ymrwymiad gennym i helpu pob dysgwr i gyflawni ei botensial ac i symud ymlaen yn hyderus.

## Deniadol, ymarferol, ac wedi'u hadeiladu ar gyfer cynnydd

Mae ein cymwysterau Tystysgrif Alwedigaethol Addysg Uwchradd (TAAU) wedi'u cynllunio i ysbrydoli a chefnogi dysgwyr 14-16 oed, gan gynnig rhaglen dros ddwy flynedd sy'n hygyrch, deniadol, ac wedi'i gwreiddio mewn dysgu yn y byd go iawn. Gyda phwyslais cryf ar weithgareddau a phrofiad ymarferol, mae'r cymwysterau hyn yn helpu dysgwyr i feithrin hyder, datblygu sgiliau hanfodol, a chyflawni llwyddiant ystyrlon.

Mae cymwysterau TAAU yn cynnwys unedau, gan ganiatáu i ddysgwyr gwblhau rhai asesiadau ym Mlwyddyn 10 ac eraill ym Mlwyddyn 11. Gyda'r hyblygrwydd hwn, mae'n bosibl gwneud cynnydd cyson, mae llai o bwysau asesu, ac mae'r dysgwyr yn cael y cyfle i ddangos yr hyn maen nhw'n ei gyflawni drwy gydol y cwrs. Ar gyfer ein cymwysterau TAAU, mae asesiadau allanol wedi'u cynllunio er mwyn asesu gwybodaeth sylfaenol a gellir eu cwblhau tua dechrau'r cwrs, gan roi mwy o amser i ddysgwyr ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau lefel uwch. Mae'r strwythur hwn yn ychwanegu trylwyredd a hygrededd i'r cymhwyster tra'n helpu i leihau llwyth gwaith athrawon.

Oherwydd eu natur gydadferol, mae ein cymwysterau TAAU yn cydnabod y cryfderau sydd gan ddysgwyr ar draws y gwahanol unedau. Gall cyflawniad uchel mewn un maes wrthbwyso perfformiad is mewn maes arall, gan hybu profiad asesu mwy cynhwysol a chefnogol.

Gyda chynnwys sy'n berthnasol, yn ysgogol ac wedi'i deilwra i anghenion dysgwyr, mae cymwysterau TAAU CBAC yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer symud ymlaen i astudio ymhellach ar Lefelau 1 i 3. P'un a yw dysgwyr yn parhau i astudio'r pwnc ai peidio, byddan nhw'n ennill gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau gwerthfawr, gan deimlo eu bod wedi cyflawni mewn ffordd sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

# Cynnwys


Crynodeb o'r asesu .......... 5
1. Cyflwyniad .......... 7
1.1. Pwrpas a nodau .......... 7
1.2. Cwricwlwm i Gymru .......... 8
1.3. Dysgu blaenorol a dilyniant .......... 8
1.4. Oriau Dysgu Dan Arweiniad (ODA) a Chyfanswm Amser Cymhwyso (CAC) .......... 9
1.5. Y defnydd o iaith .......... 9
1.6. Cydraddoldeb a mynediad teg .......... 9
2. Unedau .......... 11
2.1. Fformat yr unedau .......... 11
2.2. Sut i ddarllen yr ymhelaethiad .......... 11
2.3. Cynnwys .......... 12
Uned 1: Cyflwyniad i'r sector chwaraeon a hamdden .......... 13
Cyfleoedd ar gyfer integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â'r byd gwaith .......... 21
Uned 2 Hybu Iechyd a Llesiant drwy Chwaraeon a Hamdden .......... 22
Cyfleoedd ar gyfer integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â'r byd gwaith .......... 30
Uned 3 Datblygu Perfformiad Personol mewn Chwaraeon a Hamdden (dewisol) .......... 31
Cyfleoedd ar gyfer integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â'r byd gwaith .......... 36
Uned 4 Arwain a Hyfforddi mewn Chwaraeon a Hamdden (dewisol) .......... 37
Cyfleoedd ar gyfer integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â'r byd gwaith .......... 43
3. Asesu .......... 44
3.1. Amcanion asesu a phwysoliadau .......... 44
3.2. Trosolwg o'r Asesu .......... 44
3.3. Rheoli'r asesiad di-arholiad .......... 46
3.4. Ailgyflwyno asesiadau di-arholiad .......... 47
3.5. Camymddwyn .......... 48
4. Gwybodaeth dechnegol .......... 49
4.1. Cofrestriadau unedau .......... 49
4.2. Cofrestru ar gyfer y cymhwyster .......... 49
4.3. Graddio ac adrodd yn ôl .......... 50
4.4. Ailsefyll asesiadau unedau .......... 50
4.5. Ailwneud y cymhwyster .......... 51
Atodiad A: Cyfleoedd i fewnblannu elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru .......... 52


DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

# Crynodeb o'r asesu

| |
|---|
| Uned 1: Cyflwyniad i'r sector chwaraeon a hamdden<br>Asesiad allanol (prawf sector): 1 awr<br>20% o'r cymhwyster<br>50 marc |
| Wedi'i gosod a'i marcio gan CBAC<br>Ar gael mewn dau fformat: ar bapur ac ar sgrin<br>Cwestiynau dewis lluosog, prawf gwrthrychol ac atebion byr, rhai ohonyn nhw'n seiliedig ar sefyllfaoedd cymhwysol. |
| Uned 2: Hybu Iechyd a Llesiant drwy Chwaraeon a Hamdden<br>Asesiad di-arholiad: 5 awr<br>20% o'r cymhwyster<br>50 marc |
| Wedi'i osod a'i farcio gan CBAC.<br>Bydd briff yr asesiad ar gael ar safle Porth CBAC ym mis Medi y flwyddyn astudio gyntaf. Bydd y briff yn newid bob blwyddyn (dwy gyfres). |
| Dewis o naill ai:<br>Uned 3: Datblygu Perfformiad Personol mewn Chwaraeon a Hamdden (dewisol)<br>Asesiad di-arholiad: 7 awr<br>60% o'r cymhwyster<br>90 marc |
| Wedi'i osod gan CBAC, ei farcio gan Ganolfannau a'i gymedroli'n allanol gan CBAC.<br>Bydd briff yr asesiad ar gael ar safle Porth CBAC, a bydd yn aros yr un fath drwy gydol hyd oes y fanyleb. |
| NEU:<br>Uned 4: Arwain a Hyfforddi mewn Chwaraeon a Hamdden (dewisol)<br>Asesiad di-arholiad: 7 awr<br>60% o'r cymhwyster<br>90 marc |
| Wedi'i osod gan CBAC, ei farcio gan Ganolfannau a'i gymedroli'n allanol gan CBAC.<br>Bydd briff yr asesiad ar gael ar safle Porth CBAC, a bydd yn aros yr un fath drwy gydol hyd oes y fanyleb. |

Cymhwyster unedol yw hwn.

Mae'r cymhwyster yn cynnwys **tair** uned.

Mae Uned 1 ac Uned 2 yn **orfodol**; maent yn sail i'r cymhwyster a **dylid** eu haddysgu gyntaf.

Gall canolfannau/dysgwyr wedyn ddewis **naill ai** Uned 3 **neu** Uned 4.

© WJEC CBAC Ltd 2026

Bydd Unedau 1 a 2 ar gael am y tro cyntaf ym mis Ionawr 2008 ac ym mhob cyfres yr haf a chyfres mis Ionawr wedi hynny.

Bydd Unedau 3 a 4 ar gael o fis Ionawr 2029 ac ym mhob cyfres yr haf a chyfres mis Ionawr wedi hynny.

Bydd y cymhwyster yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn 2029.

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

# 1. Cyflwyniad

## 1.1. Pwrpas a nodau

Mae Tystysgrifau Galwedigaethol Addysg Uwchradd (TAAU) CBAC wedi'u cynllunio i fodloni anghenion dysgwyr rhwng 14 a 16 oed, gan ddarparu profiadau dysgu perthnasol ac ystyrlon sy'n adlewyrchu eu cam datblygiad. Mae'r cymwysterau wedi'u gwreiddio'n gadarn yng nghyd-destun Cymru ac economi Cymru, gan sicrhau bod dysgwyr yn ymgysylltu â chynnwys sy'n ddilys yn lleol ac yn arwyddocaol yn genedlaethol.

Maent yn cynnig cynnwys ac asesiad deniadol a hygyrch sy'n cefnogi datblygu sgiliau ymarferol, gwybodaeth a dealltwriaeth. Drwy gyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru, mae'r cymwysterau hyn yn cyfrannu at wireddu ei bedwar diben a'i egwyddorion cynnydd, gan helpu dysgwyr i ddod yn uchelgeisiol, yn alluog ac yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.

Yn ogystal, mae cymwysterau TAAU yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu ymwybyddiaeth o gyfleoedd cyflogaeth a llwybrau i astudiaeth ôl-16, gan gynnwys cyrsiau galwedigaethol sy'n arwain at gymhwysedd galwedigaethol. Mae hyn yn sicrhau bod dysgwyr wedi'u paratoi'n dda ar gyfer eu camau nesaf, boed hynny mewn addysg, hyfforddiant, neu fyd gwaith.

Mae TAAU CBAC yn:

- darparu sylfaen eang ar gyfer symud ymlaen i astudiaeth ôl-16, gan gynnwys astudiaeth alwedigaethol ar Lefel 1 i 3 fel y bo'n briodol
- caniatáu i ddysgwyr ddatblygu amrywiaeth o wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau, gyda phwyslais ar sgiliau ymarferol
- darparu cyfleoedd i ddysgwyr gael eu hasesu mewn ffyrdd perthnasol, gafaelgar ac ystyrlon, gan ddefnyddio technoleg lle bo hynny'n briodol
- darparu cyfleoedd, lle y bo'n briodol, i ddysgwyr ddatblygu:
    - sgiliau trawsgwricwlaidd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fel y nodir yn y Cwricwlwm i Gymru
    - y sgiliau cyfannol a nodir yn y Cwricwlwm i Gymru
    - dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn y byd gwaith
- darparu cyfleoedd, lle y bo'n briodol, i Ddysgwyr ymwneud ag agweddau perthnasol ar themâu trawsgwricwlaidd:
    - cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol
    - amrywiaeth
    - hawliau dynol
    - addysg cydberthynas a rhywioldeb (ACRh)
- gydnaws â Lefelau 1 a 2 Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC).

Nod TAAU mewn Chwaraeon a Hamdden yw:

- hybu dealltwriaeth o'r sector chwaraeon a hamdden, gan gynnwys rolau clybiau lleol, darparwyr hamdden, sefydliadau cymunedol a chyrff llywodraethu o ran cefnogi cyfranogiad, iechyd a llesiant
- datblygu'r gallu i ddefnyddio a chymhwyso sgiliau ymarferol, sgiliau arwain a sgiliau trefnu, gan gynnwys cynllunio, cynnal ac adolygu sesiynau gweithgarwch mewn cyd-destunau chwaraeon a hamdden
- meithrin sgiliau cyflogadwyedd trosglwyddadwy fel cynllunio, trefnu, cyfathrebu, gwaith tîm a datrys problemau drwy weithgareddau chwaraeon a hamdden cymhwysol
- hybu ymwybyddiaeth o sefydliadau chwaraeon a hamdden a'u cyfraniad at gymunedau ac economi Cymru, gan gynnwys cyflogaeth, gwirfoddoli ac ymgysylltu â'r gymuned
- paratoi dysgwyr ar gyfer symud ymlaen i astudiaethau pellach, prentisiaethau, gwirfoddoli neu gyflogaeth o fewn llwybrau sy'n gysylltiedig â chwaraeon a hamdden.

© WJEC CBAC Ltd 2026

DRAFT

## 1.2. Cwricwlwm i Gymru

Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yw sail y cymhwyster TAAU Chwaraeon a Hamdden hwn. Cafodd ei lunio er mwyn sicrhau y gall dysgwyr barhau i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben gan astudio ar gyfer y cymhwyster hwn ar yr un pryd. Yn ganolog i'r lluniad hwn y mae'r egwyddorion cynnydd, ynghyd â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ym Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant.

Wrth ddatblygu'r cymhwyster hwn, ystyriwyd lle byddai cyfleoedd i ymgorffori'r themâu trawsgwricwlaidd a chyfleoedd yn ogystal i feithrin sgiliau cyfannol a sgiliau trawsgwricwlaidd. Mae mapio syml i'w weld yn Atodiad A, a bydd y Canllawiau Addysgu yn cynnwys gwybodaeth i gefnogi athrawon.

Ystyriwyd hefyd lle gall y cymhwyster greu cyfleoedd i integreiddio'r profiadau dysgu a nodwyd yn adran 2.3; bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran integreiddio'r profiadau dysgu hyn wrth gyflwyno'r cymhwyster.

Bydd y cymhwyster TAAU Chwaraeon a Hamdden yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy wneud y canlynol:

- cefnogi'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer Iechyd a Llesiant[1], gan roi cyfle i ddysgwyr:
  - ddatblygu cymhwysedd corfforol, hyder a chymhelliant drwy gyfranogiad gweithredol mewn gweithgareddau chwaraeon a hamdden
  - deall sut mae gweithgaredd corfforol yn cyfrannu at iechyd, ffitrwydd a llesiant meddyliol gydol oes
  - meithrin perthnasoedd cadarnhaol, gwaith tîm a sgiliau arwain drwy weithgareddau cynhwysol a chydweithredol
  - cymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd, eu diogelwch a'u llesiant eu hunain, ac iechyd, diogelwch a llesiant pobl eraill, o fewn lleoliadau ymarferol
  - adfyfyrio ar eu perfformiad a'u hymddygiadau eu hunain er mwyn cefnogi datblygiad a llesiant personol.

- cefnogi egwyddorion cynnydd Iechyd a Llesiant[2] drwy annog dysgwyr i:
  - ddatblygu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth dros amser drwy gynllunio, cynnal a gwerthuso gweithgareddau chwaraeon a hamdden mewn modd cynyddol gymhleth
  - meithrin hyder ac annibyniaeth drwy gymhwyso'r hyn a ddysgir mewn amrywiaeth o gyd-destunau ymarferol a chyd-destunau arwain
  - adfyfyrio ar eu perfformiad eu hunain er mwyn canfod cryfderau, meysydd i'w gwella a'r camau nesaf wrth ddysgu
  - trosglwyddo a chymhwyso'r hyn a ddysgir mewn gwahanol weithgareddau, rolau a lleoliadau er mwyn cefnogi datblygiad personol parhaus.

## 1.3. Dysgu blaenorol a dilyniant

Er nad oes gofynion dysgu blaenorol penodol, lluniwyd y cymhwyster yn bennaf ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed, gan adeiladu ar y ddealltwriaeth gysyniadol a ddatblygwyd drwy'r hyn a ddysgwyd ganddynt rhwng 3 ac 14 oed. Efallai y bydd dysgwyr wedi cwblhau Cymhwyster Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith (WRFQ) yn y pwnc cyn dechrau'r cwrs hwn, a all gefnogi eu parodrwydd a'u dilyniant ymhellach.

Mae'r cymhwyster yn galluogi dysgwyr i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i astudio ôl-16 ac sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer bywyd,

[1] Iechyd a Llesiant: datganiad o'r hyn sy'n bwysig - Hwb
[2] Iechyd a Llesiant: egwyddorion cynnydd - Hwb

© WJEC CBAC Ltd 2026
DRAFT

dysgu a gwaith. Mae'n darparu sail addas ar gyfer dilyniant i astudiaeth bellach ar lefelau 1 i 3, megis Cymwysterau Cymhwysol mewn Chwaraeon ar Lefel 3 ac i brentisiaethau yn y sector chwaraeon a hamdden, megis Prentisiaeth Ymarfer Corff a Ffitrwydd, Prentisiaeth Gwaith Chwarae neu brentisiaethau Hyfforddi Chwaraeon ar Lefel. Yn ogystal, mae'r fanyleb hon yn cynnig cwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

## 1.4. Oriau Dysgu Dan Arweiniad (ODA) a Chyfanswm Amser Cymhwyso (CAC)

Lluniwyd y cymhwyster TAAU Chwaraeon a Hamdden i'w gyflwyno o fewn cyfnod o 120-140 o oriau dysgu dan arweiniad. Cafodd y cymhwyster ei lunio'n bennaf fel rhaglen 2 flynedd i ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11. Mae gan ganolfannau hyblygrwydd o ran sut maen nhw'n strwythuro ac yn cyflwyno eu cyrsiau o fewn cyfanswm yr ODA ar gyfer y cymhwyster. Mae maint y cynnwys ym mhob uned a'i bwysoliad o fewn y cymhwyster yn rhoi syniad o'r ganran ddisgwyliedig o ODA y gallai fod ei hangen ar gyfer pob uned.

| | Pwysoliad | ODA |
|---|---|---|
| Uned 1 | 20 % | 24 awr |
| Uned 2 | 20 % | 24 awr |
| Uned 3 / 4 | 60 % | 72 awr |
| **Cyfansymiau** | **100%** | **120 awr** |

Y cyfanswm amser cymhwyso (CAC) yw cyfanswm yr amser, mewn oriau, y disgwylir i ddysgwr ei dreulio er mwyn ennill cymhwyster. Mae'n cynnwys yr ODA ac unrhyw amser ychwanegol i baratoi, astudio a chyflawni rhai gweithgareddau asesu ffurfiannol.

Cyfrifwyd mai cyfanswm amser cymhwyso’r cymhwyster hwn yw 140-160 awr. Mae hyn yn cynnwys:

- Rhwng 120 a 140 o oriau dysgu dan arweiniad a/neu asesiad dan oruchwyliaeth
- 20 awr o astudiaeth hunangyfeiriedig a all gynnwys aseiniadau a thasgau ychwanegol wedi'u gosod gan yr athro (gwaith cartref) a defnydd annibynnol o adnoddau dysgu ar-lein.

## 1.5. Y defnydd o iaith

Wrth i'n dealltwriaeth o amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant ddatblygu, mae'n rhaid i'n hiaith ddatblygu hefyd. Bydd y derminoleg yn cael ei diweddaru yn ôl yr angen i sicrhau ei bod yn adlewyrchu hunaniaethau unigol ac yn meithrin parch a chywirdeb. Bydd yr iaith a ddefnyddir mor benodol â phosibl. Mae'n hanfodol bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd a bod modd addasu gan fod iaith gynhwysol yn hybu urddas a thegwch. Gan gydnabod y bydd iaith yn parhau i ddatblygu, byddwn yn parhau i fod yn agored i ddiwygiadau pellach i sicrhau y cynrychiolir ac y cefnogir pob unigolyn yn gywir. Bydd CBAC yn rhoi gwybod i ganolfannau am unrhyw ddiwygiadau a bydd y fersiwn diweddaraf o'r fanyleb ar y wefan bob amser.

## 1.6. Cydraddoldeb a mynediad teg

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gynllunio i fod yn hygyrch i bob dysgwr, waeth beth fo'i rywedd, ethnigrwydd, crefydd, diwylliant, neu unrhyw nodwedd warchodedig arall fel y'i diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r nodweddion gwarchodedig hyn yn cynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, a

© WJEC CBAC Ltd 2026

DRAFT

chyfeiriadedd rhywiol. Mae egwyddorion cynllunio cynhwysol wedi'u cymhwyso drwy'r cymhwyster, gan gynnwys defnyddio fformatau asesu amrywiol, iaith glir a diduedd, ac enghreifftiau amrywiol sy'n adlewyrchu ehangder ac amrywiaeth y sector chwaraeon a hamdden. Mae pob ymdrech wedi'i wneud i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai greu rhwystrau i fynediad neu gyflawniad na ellir eu cyfiawnhau.

Mae trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol ar gael i ddysgwyr cymwys er mwyn sicrhau y gallant gymryd rhan lawn mewn asesiadau a dangos eu gwybodaeth a'u sgiliau. Nid yw'r addasiadau hyn yn newid gofynion bwriadedig yr asesiad ond maent yn cefnogi mynediad teg. Mae canllawiau ar drefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol i'w gweld yn nogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC) *Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol*: *Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol*, sydd ar gael ar www.jcq.org.uk.

Mae'r cymhwyster hwn yn cadw at yr egwyddorion a amlinellir yng nghanllawiau'r CGC. O ganlyniad i ddylunio cynhwysol a darpariaeth ar gyfer addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr a fydd yn dod ar draws rhwystr llwyr rhag unrhyw ran o'r broses asesu.

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

# 2. Unedau

## 2.1. Fformat yr unedau

| | |
|---|---|
| ODA | Mae'n nodi'r nifer amcangyfrifedig o oriau y bydd dysgwr yn ei dreulio dan oruchwyliaeth neu arweiniad uniongyrchol i gwblhau'r uned. Mae hyn yn cynnwys addysgu yn yr ystafell ddosbarth, gweithgareddau ymarferol, ac astudio dan oruchwyliaeth. |
| Cyfraniad at radd y cymhwyster | Mae'n nodi'r cyfraniad y mae'r uned hon yn ei wneud i radd ar gyfartaledd y cymhwyster. |
| Trosolwg o'r uned | Mae'n darparu crynodeb cryno o bwrpas, cwmpas a pherthnasedd yr uned. Mae'n amlinellu'r themâu allweddol, y sgiliau a'r meysydd gwybodaeth a gwmpesir, a sut mae'r uned yn cefnogi dilyniant yn y maes galwedigaethol. |
| Testunau | Mae'n rhestru'r testunau y bydd dysgwyr yn eu hastudio fel rhan o'r uned. |
| Crynodeb o'r asesu | Mae'n crynhoi'r dulliau asesu ar gyfer yr uned. |
| Yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer yr asesiad | Manylion y deunyddiau, yr offer, y cyfleusterau a'r staffio y mae eu hangen i gynnal yr asesiad yn effeithiol. Mae hyn yn sicrhau cysondeb a thegwch wrth gyflwyno'r cymhwyster ar draws canolfannau. |
| Cysylltiadau ag unedau a chymwysterau eraill CBAC | Mae'n nodi cysylltiadau ag unedau neu gymwysterau eraill sy'n cael eu cynnig gan CBAC, gan gynnwys llwybrau dilyniant a/neu gyfleoedd ar gyfer cyflwyno integredig. |
| Cynnwys | Mae'n amlinellu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae angen eu haddysgu i ddysgwyr er mwyn bodloni'r meini prawf asesu. |
| Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â'r byd gwaith | Mae'n tynnu sylw at brofiadau dysgu a allai gael eu cynhyrchu drwy gyflwyno'r uned. Mae mwy o wybodaeth wedi'i chynnwys yn y Canllawiau Addysgu.<br><br>Ni fydd asesu uniongyrchol o'r profiadau. |

## 2.2. Sut i ddarllen yr ymhelaethiad

Mae'r ymhelaethiad a ddarperir yn y golofn ar y dde yn defnyddio'r pedwar bonyn i ddangos dyfnder disgwyliedig y dysgu.

Mae 'Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o' yn cael ei ddefnyddio pan fydd angen ar ddysgwyr ymwybyddiaeth gyffredinol yn unig o'r cynnwys dan sylw, heb ddealltwriaeth fanwl. Dylai athrawon gyfeirio at ddogfennau Canllawiau Addysgu am ganllawiau manylach ar ddyfnder a chwmpas.

Mae 'Dylai dysgwyr wybod' yn cael ei ddefnyddio pan mae gofyn i ddysgwyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o'r cynnwys.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

Mae ‘Dylai dysgwyr ddeall’ yn nodi y dylai dysgwyr ddangos mwy o ddyfnder o wybodaeth a dealltwriaeth, gan gynnwys y gallu i gymhwyso gwybodaeth at gyd-destunau cyfarwydd neu anghyfarwydd a/neu i ddadansoddi a gwerthuso gwybodaeth at bwrpas penodol.

Mae ‘Dylai dysgwyr allu’ yn cael ei ddefnyddio pan fydd disgwyl i ddysgwyr ddefnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn sefyllfaoedd ymarferol neu ddangos cymhwyso sgiliau ymarferol a thechnegau.

## 2.3. Cynnwys

Darperir cynnwys ar gyfer pob testun, sy'n amlinellu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae angen eu haddysgu i ddysgwyr.

Rhaid cyflwyno'r holl gynnwys oni nodir fel arall:

- mae'r defnydd o'r ymadrodd 'gan gynnwys' yn golygu bod y cynnwys dan sylw yn orfodol ac y gallai gael ei asesu. Gall canolfannau hefyd ddewis ymgorffori cynnwys neu enghreifftiau ychwanegol y tu hwnt i'r rhai a restrir
- mae'r defnydd o'r geiriau ‘er enghraifft’, ‘fel’ neu ‘megis’ yn golygu mai arweiniad yn unig yw'r cynnwys dan sylw, a gellid defnyddio enghreifftiau eraill.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

# Uned 1: Cyflwyniad i'r sector chwaraeon a hamdden

| | |
|---|---|
| ODA | 24 |
| Cyfraniad at radd y cymhwyster | 20% |
| Trosolwg o'r uned | Yn yr uned hon, bydd y dysgwyr yn datblygu gwybodaeth am y sector chwaraeon a hamdden a dealltwriaeth ohono, gan gynnwys ei strwythur, sefydliadau allweddol, a meysydd gweithgarwch. Bydd y dysgwyr yn archwilio'r diffiniadau o chwaraeon a hamdden, ac yn deall sut mae'r gwahanol sectorau'n cydweithio â'i gilydd i gefnogi cyfranogiad, llesiant, a chynhwysiant.<br><br>Mae'r uned yn rhoi cyflwyniad i'r dysgwyr ar rolau a chyfrifoldebau sefydliadau ym mhob rhan o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, ac yn archwilio'r amrywiaeth eang o gyfleoedd cyflogaeth a llwybrau gyrfa sydd ar gael. Bydd y dysgwyr hefyd yn datblygu dealltwriaeth o'r sgiliau sy'n ofynnol i weithio'n effeithiol mewn rolau yn y sector chwaraeon a hamdden.<br><br>Yn olaf, bydd y dysgwyr yn archwilio pwysigrwydd y sector yng Nghymru, gan gynnwys ei gyfraniad at iechyd a llesiant unigolion, datblygiad cymunedol, ac economi Cymru.<br><br>Mae'r uned hon yn helpu i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy ac yn cynnig sylfaen ar gyfer camu ymlaen i ddysgu pellach neu gyflogaeth yn y sector chwaraeon a hamdden. |
| Testunau | Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:<br>1.1 Deall y sector chwaraeon a hamdden<br>1.2 Rolau a Chyfrifoldebau Sefydliadau'r Sector<br>1.3 Cyflogaeth a Gyrfaoedd yn y Sector Chwaraeon a Hamdden<br>1.4 Pwysigrwydd y Sector Chwaraeon a Hamdden yng Nghymru |
| Crynodeb o'r asesu | Asesiad allanol (prawf sector): 1 awr<br>Wedi'i osod a'i farcio gan CBAC<br>Ar gael mewn dau fformat: ar bapur ac ar sgrin<br>20% o’r cymhwyster<br>50 marc |
| Yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer yr asesiad | Nid oes anghenion penodol ar gyfer yr asesiad.<br>Dylai canolfannau sy'n cofrestru dysgwyr ar gyfer asesiad ar y sgrin gyfeirio at wefan CBAC am wybodaeth ar unrhyw ofynion system:<br>https://www.cbac.co.uk/home/gweinyddu/e-asesu/ |
| Cysylltiadau ag unedau a chymwysterau eraill CBAC | Gallai'r unedau Sgiliau Gwaith canlynol ategu cyflwyno'r uned hon:<br>• Archwilio Llwybrau Gyrfa<br>• Gweithio yng Nghymru<br>• Gwasanaeth Cwsmeriaid. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | Gallai'r unedau Sgiliau Bywyd canlynol ategu cyflwyno'r uned hon:<br>• Ymarfer Corff i Bawb<br>• Ffordd Iach o Fyw<br>• Gwaith Tîm<br>• Iechyd Meddwl a Llesiant<br>• Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. |
|---|---|

## Cynnwys

| 1.1 Deall y Sector Chwaraeon a Hamdden | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>1.1.1 Y diffiniadau o chwaraeon a hamdden<br>1.1.2 Darpariaethau sy'n cefnogi'r sector chwaraeon a hamdden<br>1.1.3 Sut mae'r sectorau chwaraeon a hamdden yn cydweithio â'i gilydd i gefnogi cyfranogiad, mwynhad a llesiant | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 1.1.1<br>Y diffiniadau o chwaraeon a hamdden | Dylai'r dysgwyr ddeall y diffiniadau o chwaraeon a hamdden, ac enghreifftiau o weithgareddau o fewn pob un.<br><br>• Chwaraeon: gweithgaredd corfforol cystadleuol wedi'i drefnu sy'n gofyn am sgìl ac ymrwymiad, ac sy'n aml yn ddarostyngedig i reolau a rheoliadau (er enghraifft, pêl-droed, athletau), ond y gellir ei fwynhau mewn ffordd adloniadol.<br><br>• Hamdden: yr amser rhydd a fydd ar gael i unigolion pan na fyddant yn gweithio neu'n cyflawni tasgau beunyddiol hanfodol, a'r ffordd y byddant yn dewis ei dreulio (gallai'r gweithgareddau fod yn rhai chwaraeon neu'n rhai adloniadol). |
| 1.1.2<br>Darpariaeth sy'n cefnogi'r sector chwaraeon a hamdden | Dylai'r dysgwyr wybod y gwahanol fathau o ddarpariaeth sy'n cefnogi'r sector chwaraeon a hamdden.<br><br>Chwaraeon:<br>• chwaraeon proffesiynol ac elît<br>• chwaraeon cymunedol a llawr gwlad<br>• cyfleusterau chwaraeon<br>• hyfforddi a datblygu chwaraeon.<br><br>Hamdden:<br>• ffitrwydd a llesiant<br>• hamdden masnachol<br>• lletygarwch a thwristiaeth<br>• canolfannau hamdden a darpariaeth y sector cyhoeddus. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | |
|---|---|
| 1.1.3<br>Sut mae'r sectorau chwaraeon a hamdden yn cydweithio â'i gilydd i gefnogi cyfranogiad, mwynhad a llesiant | Dylai'r dysgwyr ddeall sut mae'r sectorau chwaraeon a hamdden yn cydweithio â'i gilydd i gefnogi cyfranogiad, mwynhad a llesiant.<br><br>• Mae amser hamdden yn cynnig cyfleoedd i gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau chwaraeon ac adloniadol, a allai fod am resymau cystadleuol neu er mwyn cael hwyl a mwynhad.<br>• Mae chwaraeon yn cynnwys cyfranogiad adloniadol a chyfleoedd cystadleuol, gan alluogi pobl i gymryd rhan er mwynhad, ffitrwydd, rhyngweithio cymdeithasol neu berfformiad.<br>• Mae sefydliadau chwaraeon a hamdden yn cydweithio â'i gilydd drwy rannu cyfleusterau, cyllid a rhaglenni i gynnig cyfleoedd hygyrch i bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau. |

| 1.2 Rolau a Chyfrifoldebau Sefydliadau'r Sector | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd y dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y maes canlynol:<br>1.2.1 Rolau a chyfrifoldebau sefydliadau'r sector chwaraeon a hamdden | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 1.2.1<br>Rolau a chyfrifoldebau sefydliadau yn y sector chwaraeon a hamdden | Dylai'r dysgwyr ddeall rolau a chyfrifoldebau sefydliadau mawr yn y sector chwaraeon a hamdden a'r posibilrwydd o orgyffwrdd rhwng rhai cyfrifoldebau.<br><br>Sefydliadau cenedlaethol (er enghraifft: Chwaraeon Cymru; UK Sport):<br>• cynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgaredd corfforol<br>• darparu cyllid a grantiau<br>• cefnogi llwybrau talent<br>• hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant<br>• sicrhau cyfranogiad diogel a theg<br>• denu digwyddiadau chwaraeon mawr i'r DU.<br><br>Cyrff llywodraethu cenedlaethol (er enghraifft: Cymdeithas Bêl-droed Cymru; Pêl-rwyd Cymru):<br>• gosod rheolau, rheoliadau a safonau diogelu<br>• trefnu cystadlaethau a chynghreiriau cenedlaethol<br>• darparu cymwysterau hyfforddi a llwybrau dyfarnu<br>• cefnogi clybiau a hyfforddwyr<br>• adnabod talent a datblygu perfformiad<br>• hybu cyfranogiad yn eu camp.<br><br>Sefydliadau'r sector cyhoeddus (er enghraifft: awdurdodau lleol): |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | |
|---|---|
| | • darparu cyfleusterau hygyrch a fforddiadwy i'r cyhoedd<br>• cynnal a chadw parciau, mannau agored a meysydd hamdden<br>• sicrhau safonau iechyd a diogelwch<br>• cynnal rhaglenni yn ystod gwyliau ysgol a gweithgareddau ieuenctid sy'n hybu cyfranogiad<br>• gweithio gyda chyrff iechyd y cyhoedd i hybu llesiant (cynlluniau atgyfeirio meddygon teulu).<br><br>Sefydliadau'r sector preifat (er enghraifft: clybiau chwaraeon masnachol; campfeydd preifat):<br>• darparu gwasanaethau a chyfleusterau arbenigol o ansawdd da<br>• cynnal a chadw amgylcheddau modern a diogel sy'n canolbwyntio ar y cwsmer<br>• creu swyddi<br>• dangos arloesedd drwy weithgareddau newydd<br>• cyfrannu at yr economi leol drwy dwf busnes.<br><br>Sefydliadau gwirfoddol/cymunedol (er enghraifft: Parkrun; clybiau ieuenctid):<br>• cynnig cyfleoedd ar lawr gwlad<br>• cynnal gweithgareddau am gost isel neu am ddim<br>• hybu cynhwysiant cymdeithasol<br>• recriwtio a chefnogi gwirfoddolwyr<br>• codi arian i gynnal a chadw cyfleusterau a rhaglenni cymunedol.<br><br>Ysgolion/colegau:<br>• cynnal gweithgareddau addysg gorfforol ac allgyrsiol<br>• darparu cyfleusterau at ddefnydd cymunedol<br>• annog ffyrdd iach o fyw ymhlith pobl ifanc<br>• adnabod a chefnogi disgyblion dawnus<br>• gweithio gyda chlybiau i gynnig llwybrau. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| 1.3 Cyflogaeth a Gyrfaoedd yn y Sector Chwaraeon a Hamdden | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>1.3.1 Rolau cyflogaeth yn y sector chwaraeon a hamdden<br>1.3.2 Llwybrau gyrfa yn y sector chwaraeon a hamdden<br>1.3.3 Y sgiliau sy'n ofynnol wrth weithio yn y sector chwaraeon a hamdden, a sut y gallant fod yn berthnasol i rolau amrywiol | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 1.3.1<br>Rolau cyflogaeth yn y sector chwaraeon a hamdden | Dylai'r dysgwyr ddeall bod y sector chwaraeon a hamdden yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd cyflogaeth.<br><br>Rolau Cysylltiedig â Chwaraeon, er enghraifft:<br>• Hyfforddwr Chwaraeon<br>• Hyfforddwr Cryfder a Chyflyru<br>• Swyddog Adnabod Talent<br>• Hyfforddwr Personol<br>• Swyddog Datblygu Chwaraeon<br>• Athletwr Elît<br>• Dadansoddwr Perfformiad<br>• Dyfarnwr/Swyddog<br>• Rheolwr Tîm.<br><br>Rolau Hamdden, er enghraifft:<br>• Cynorthwyydd Canolfan Hamdden<br>• Hyfforddwr Ffitrwydd<br>• Achubwr Bywydau<br>• Hyfforddwr Ymarfer Grŵp<br>• Athro Nofio<br>• Rheolwr Cyfleusterau.<br><br>Rolau cefnogi (ym mhob sector) er enghraifft:<br>• Rheolwr Cyfleusterau<br>• Cynorthwyydd Marchnata<br>• Gweinyddwr Chwaraeon/Hamdden<br>• Swyddog Cyllid<br>• Cynorthwyydd Adnoddau Dynol<br>• Cynorthwyydd Iechyd a Diogelwch<br>• Gwirfoddolwr. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | |
|---|---|
| 1.3.2<br>Llwybrau gyrfa yn y sector chwaraeon a hamdden | Dylai'r dysgwyr wybod am amrywiaeth o lwybrau gyrfa a chyfleoedd i wneud cynnydd yn y sector chwaraeon a hamdden, gan gynnwys:<br><br>• cyrsiau galwedigaethol mewn ysgolion a cholegau<br>• prentisiaethau<br>• profiad gwaith<br>• gwirfoddoli<br>• gwaith tymhorol (er enghraifft, cynlluniau chwarae; gwersylloedd haf)<br>• rolau lefel mynediad. |
| 1.3.3<br>Y sgiliau sy'n ofynnol wrth weithio yn y sector chwaraeon a hamdden, a sut y gallant fod yn berthnasol i rolau amrywiol | Dylai'r dysgwyr ddeall yr amrywiaeth o sgiliau ymarferol, personol a phroffesiynol sydd eu hangen ar y rhai sy'n gweithio yn y sector chwaraeon a hamdden.<br><br>**Cyfathrebu:**<br>• y gallu i siarad yn glir ac yn hyderus<br>• gwrando ar gwsmeriaid a chydweithwyr<br>• rhoi cyfarwyddiadau<br>• defnyddio technoleg ddigidol i gyfathrebu.<br><br>Enghreifftiau o ddefnydd mewn rolau:<br>• Hyfforddwyr Chwaraeon – rhoi pwyntiau addysgu<br>• Cynorthwywyr Canolfannau Hamdden – cyfarch cwsmeriaid<br>• Cydlynwyr Digwyddiadau – cynnal cyfarfodydd briffio staff.<br><br>**Gwaith tîm:**<br>• cydweithio â chydweithwyr<br>• cefnogi eraill<br>• rhannu tasgau a chyfrifoldebau<br><br>Enghreifftiau o ddefnydd mewn rolau:<br>• Achubwyr Bywydau – gweithio fel rhan o dîm diogelwch<br>• Hyfforddwyr Ffitrwydd – helpu ei gilydd i gynnal dosbarthiadau grŵp<br>• Hyfforddwyr Gweithgareddau Awyr Agored – rheoli gweithgareddau gyda'i gilydd.<br><br>**Arweinyddiaeth:**<br>• cymryd cyfrifoldeb am grwpiau neu sesiynau<br>• gwneud penderfyniadau yn gyflym ac yn ddiogel<br>• cymell a chefnogi eraill.<br><br>Enghreifftiau o ddefnydd mewn rolau:<br>• Hyfforddwyr Chwaraeon – arwain sesiynau<br>• Hyfforddwyr Gweithgareddau Awyr Agored – tywys grwpiau yn ystod gweithgareddau<br>• Rheolwyr Tîm – trefnu chwaraewyr a staff.<br><br>**Trefnu:**<br>• cynllunio sesiynau/digwyddiadau |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | |
|---|---|
| | • rheoli amser yn effeithiol<br>• cadw cofnodion.<br><br>Enghreifftiau o ddefnydd mewn rolau:<br>• Swyddogion Datblygu Chwaraeon – cynllunio rhaglenni<br>• Cydlynwyr Digwyddiadau – trefnu amserlenni<br>• Rheolwyr Cyfleusterau – trefnu rotâu staff.<br><br>**Datrys Problemau:**<br>• ymateb i heriau<br>• addasu sesiynau os bydd y cyfarpar neu'r tywydd yn newid<br>• ymdrin â chwynion gan gwsmeriaid heb gynhyrfu<br>• datrys achosion o wrthdaro ar amserlenni rhwng gwahanol grwpiau neu ddosbarthiadau<br>• addasu sesiynau ar gyfer cyfranogwyr sydd â gwahanol anghenion neu lefelau sgiliau.<br><br>Enghreifftiau o ddefnydd mewn rolau:<br>• Hyfforddwyr – addasu gweithgareddau<br>• Rheolwyr Cyfleusterau – datrys problemau<br>• Swyddogion Iechyd a Diogelwch – ymateb yn gyflym i ddamweiniau neu argyfyngau gan gadw pawb yn ddiogel ar yr un pryd.<br><br>**Sgiliau Technegol (Rôl-benodol):**<br>• cynnal profion ffitrwydd<br>• defnyddio meddalwedd dadansoddi chwaraeon<br>• paratoi cyfarpar yn ddiogel<br>• addysgu technegau ar gyfer campau penodol.<br><br>Enghreifftiau o ddefnydd mewn rolau:<br>• Dadansoddwyr Chwaraeon – offer fideo a data<br>• Hyfforddwyr Ffitrwydd – defnyddio cyfarpar campfa<br>• Hyfforddwyr – arddangos technegau. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

<table>
<tr><th colspan="2">1.4 Pwysigrwydd y Sector Chwaraeon a Hamdden yng Nghymru</th></tr>
<tr><td colspan="2">Yn y testun hwn bydd y dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y maes canlynol:<br>1.4.1 Pwysigrwydd y sector i gymunedau, i unigolion, ac i economi Cymru</td></tr>
<tr><th>Adran</th><th>Ymhelaethiad</th></tr>
<tr><td>1.4.1<br>Pwysigrwydd y sector i gymunedau, i unigolion, ac i economi Cymru</td><td>Dylai'r dysgwyr ddeall pwysigrwydd y sector chwaraeon a hamdden i gymunedau, i unigolion, ac i economi Cymru.<br><br>Unigolion<br>Mae'r sector yn cefnogi'r canlynol:<br>• iechyd corfforol – gwella ffitrwydd a lleihau'r risg o salwch<br>• llesiant meddyliol – lleihau straen a gwella hwyliau<br>• datblygiad cymdeithasol – meithrin hyder, gwaith tîm a chyfathrebu<br>• datblygu sgiliau – arweinyddiaeth, disgyblaeth a sgiliau bywyd eraill.<br><br>Enghraifft: Mae clybiau, campfeydd a grwpiau cerdded lleol yn ceisio cefnogi ac annog iechyd corfforol, llesiant meddyliol a sgiliau cymdeithasol.<br><br>Cymunedau<br>Mae'r sector yn cyfrannu at y canlynol:<br>• cynhwysiant cymdeithasol – dod â phobl o gefndiroedd amrywiol ynghyd<br>• hunaniaeth gymunedol - ennyn balchder drwy glybiau, digwyddiadau a mannau a rennir<br>• gostwng troseddu – cynnig gweithgareddau cadarnhaol i bobl ifanc<br>• gwirfoddoli – atgyfnerthu cyfranogiad a chyfrifoldeb cymunedol.<br><br>Enghraifft: Mae sefydliadau cenedlaethol fel Chwaraeon Cymru yn cynnig mentrau sydd â'r nod o gynyddu cyfranogiad a chydlyniad cymunedol.<br><br>Economi Cymru<br>Mae'r sector o fudd i'r economi drwy'r canlynol:<br>• cyflogaeth – rolau ym meysydd hyfforddi, digwyddiadau, rheoli a gweithrediadau cyfleusterau<br>• twristiaeth – digwyddiadau mawr sy'n denu ymwelwyr ac incwm i fusnesau<br>• buddsoddi mewn seilwaith – datblygu cyfleusterau sy'n cefnogi economïau lleol<br>• lleihau costau'r GIG – poblogaethau iachach yn lleihau gwariant tymor hir ar ofal iechyd.<br><br>Enghraifft: Gall digwyddiadau chwaraeon mawr roi hwb i dwristiaeth a chreu swyddi ym meysydd lletygarwch a rheoli digwyddiadau.</td></tr>
</table>

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

## Cyfleoedd ar gyfer integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â'r byd gwaith

Mae'r uned hon yn creu cyfleoedd i ddatblygu'r profiadau dysgu canlynol (ni fydd y profiadau yn cael eu hasesu'n uniongyrchol):

- rhyngweithio â siaradwyr gwadd o'r sector chwaraeon a hamdden i gael mewnwelediad uniongyrchol i arferion, rolau a disgwyliadau'r byd go iawn
- gofyn cwestiynau a thrafod tueddiadau, heriau a datblygiadau arloesol cyfredol yn y sector chwaraeon a hamdden gyda gweithwyr proffesiynol o'r diwydiant
- datblygu sgiliau cyfathrebu a rhwydweithio drwy ymgysylltu â hyfforddwyr, rheolwyr cyfleusterau ac aelodau eraill o staff chwaraeon a hamdden
- ymweld â chyfleusterau chwaraeon a hamdden er mwyn cael profiad uniongyrchol o gyfranogiad, darpariaeth a phrofiad cwsmeriaid
- cael ysbrydoliaeth a chymhelliant drwy glywed straeon am deithiau gyrfa a llwyddiant personol.

Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd y mae'r cymhwyster yn eu cynnig i athrawon/canolfannau i integreiddio'r profiadau a'r sgiliau dysgu hyn wrth ei gyflwyno.

Gweler Atodiad A am gyfleoedd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

# Uned 2 Hybu Iechyd a Llesiant drwy Chwaraeon a Hamdden

| | |
|---|---|
| ODA | 24 |
| Cyfraniad at radd y cymhwyster | 20% |
| Trosolwg o'r uned | Yn yr uned hon, bydd y dysgwyr yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o iechyd, ffitrwydd a llesiant, a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar gyfranogiad mewn gweithgareddau chwaraeon a hamdden, ohonynt. Bydd y dysgwyr yn archwilio manteision corfforol, meddyliol a chymdeithasol gweithgaredd, yn deall y rhwystrau sy'n atal pobl rhag cymryd rhan, ac yn gwerthuso strategaethau i hybu ymgysylltu cynhwysol.<br><br>Mae'r uned yn canolbwyntio ar y rhyng-gysylltedd rhwng iechyd, ffitrwydd a llesiant, y risgiau sy'n gysylltiedig â ffordd eisteddog o fyw, a rôl y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol o ran cefnogi cyfranogiad. Bydd y dysgwyr yn datblygu'r gallu i gynllunio, hybu a gwerthuso mentrau sy'n annog cyfranogiad, gan gefnogi profiadau diogel, hygyrch a difyr ar gyfer cymunedau amrywiol.<br><br>Mae'r uned hon yn helpu i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy megis cyfathrebu, meddwl yn feirniadol, trefnu, a gwerthuso, ac yn cynnig cyfleoedd i gamu ymlaen i ddysgu pellach, prentisiaethau, a chyflogaeth yn y sector chwaraeon a hamdden. |
| Testunau | Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:<br>2.1 Deall iechyd, ffitrwydd a llesiant<br>2.2 Deall rhwystrau sy'n atal pobl rhag cymryd rhan<br>2.3 Cynyddu cyfranogiad a hybu iechyd, ffitrwydd a llesiant |
| Crynodeb o'r asesu | Asesiad di-arholiad: 5 awr<br>Wedi'i farcio gan CBAC<br>20% o'r cymhwyster<br>50 marc |
| Yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer yr asesiad | Nid oes anghenion penodol ar gyfer yr asesiad. |
| Cysylltiadau ag unedau a chymwysterau eraill CBAC | Gallai'r unedau Sgiliau Bywyd canlynol ategu cyflwyno'r uned hon:<br>• Ymarfer Corff i Bawb<br>• Ffordd Iach o Fyw<br>• Gwaith Tîm<br>• Iechyd Meddwl a Llesiant<br>• Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

## Cynnwys

**2.1 Deall iechyd, ffitrwydd a llesiant**

Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:
2.1.1 Diffinio iechyd, ffitrwydd a llesiant a deall sut mae pob un yn effeithio ar y gweddill
2.1.2 Sut mae gweithgareddau chwaraeon a hamdden yn cefnogi iechyd, ffitrwydd a llesiant
2.1.3 Sut mae camau bywyd yn dylanwadu ar iechyd, ffitrwydd a llesiant unigolyn
2.1.4 Risgiau ffordd eisteddog neu wedi arwahanu yn gymdeithasol o fyw i unigolion, cymunedau ac economi Cymru/y DU

| Adran | Ymhelaethiad |
|---|---|
| 2.1.1<br>Diffinio iechyd, ffitrwydd a llesiant a deall sut mae pob un yn effeithio ar y gweddill | Dylai'r dysgwyr wybod y diffiniadau canlynol:<br>• iechyd: llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol cyflawn, nid absenoldeb afiechyd neu wendid yn unig. Mae'n cyfeirio at bob agwedd ar fywyd a ffordd o fyw<br>• ffitrwydd: y gallu i fodloni gofynion yr amgylchedd. Felly, mae p'un a yw person yn ffit ai peidio yn dibynnu ar ofynion corfforol ei fywyd<br>• llesiant: cyflwr o fod yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus â'ch bywyd a'r hyn a'r hyn rydych chi'n ei wneud. Mae hefyd yn cyfeirio at bob agwedd ar fywyd.<br><br>Dylai'r dysgwyr ddeall sut mae iechyd, ffitrwydd a llesiant yn rhyng-gysylltiedig:<br>• gall gwelliannau mewn un maes gael effaith gadarnhaol ar y gweddill<br>• gall heriau mewn un maes greu diffygion ym mhob un o'r tri. Er enghraifft: gall iechyd gwael gyfyngu ar allu person i gyflawni neu gynnal ffitrwydd. Yn yr un modd, gall ymarfer corff rheolaidd roi hwb i lesiant drwy ryddhau endorffinau, gan leihau straen a gorbryder. |
| 2.1.2<br>Sut mae gweithgareddau chwaraeon a hamdden yn cefnogi iechyd, ffitrwydd a llesiant | Dylai'r dysgwyr ddeall manteision corfforol, meddyliol a chymdeithasol cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a hamdden, gan gynnwys:<br><br>**Manteision Corfforol:**<br>• gwella dygnwch cyhyrol, cryfder cyhyrau ac ymddaliad<br>• gwella symudedd ac ystod symudiad<br>• lleihau'r risg o anaf neu salwch<br>• lleihau'r risg o amrywiaeth o gyflyrau iechyd (er enghraifft: strôc, diabetes Math 2, clefyd coronaidd/y galon, gordewdra)<br>• gwella iechyd cardiofasgwlar (er enghraifft: gostwng cyfradd curiad y galon wrth orffwys, pwysedd gwaed a chyfradd anadlu, a chynyddu cynhwysedd yr ysgyfaint)<br>• gwella cyfansoddiad y corff |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

DRAFT

| | |
|---|---|
| | • cynyddu lefel imiwnedd er mwyn atal salwch.<br><br>**Manteision Meddyliol:**<br>• cynyddu lefelau canolbwyntio, hunanhyder a hunan-barch, hwyliau personol, gwydnwch ac ymrwymiad<br>• rhyddhau mwy o gemegion cadarnhaol yn yr ymennydd (er enghraifft: serotonin ac endorffinau)<br>• gwella ansawdd a hyd cwsg<br>• gwella cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith<br>• gostwng lefelau straen, iselder a lludded meddyliol.<br><br>**Manteision Cymdeithasol:**<br>• gwella sgiliau cymdeithasol (er enghraifft: sgiliau cyfathrebu, sgiliau rhyngbersonol, empathi, gwaith tîm, cydweithio a gwneud penderfyniadau)<br>• mwy o ryngweithio â phobl o'r tu allan i'r grŵp agosaf o gysylltiadau cymdeithasol<br>• lleihau unigrwydd ac arwahanu cymdeithasol<br>• gwella'r gallu i reoli amser. |
| 2.1.3<br>Sut mae camau bywyd yn dylanwadu ar iechyd, ffitrwydd a llesiant unigolyn | Dylai'r dysgwyr ddeall sut y gall cam bywyd person ddylanwadau ar ei iechyd, ei ffitrwydd a'i lesiant, a sut y bydd hyn yn effeithio ar gyfranogiad mewn chwaraeon a hamdden.<br><br>**Camau Bywyd:**<br><br>Plentyndod cynnar (0–11 oed)<br>• datblygiad corfforol cyflym a sgiliau symudiad sy'n datblygu<br>• dysgu drwy chwarae<br>• ffurfio perthnasoedd cymdeithasol<br>• dibyniaeth ar oedolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau.<br><br>Pobl ifanc (12–17 oed)<br>• newidiadau corfforol, emosiynol a chymdeithasol sylweddol<br>• mwy o ddylanwad gan grwpiau cyfoedion<br>• annibyniaeth gynyddol<br>• mwy o ymwybyddiaeth o ddelwedd y corff ac ymdeimlad o berthyn.<br><br>Oedolion o oedran gweithio (18–64 oed)<br>• cydbwyso blaenoriaethau<br>• incwm gwario<br>• llai o amser rhydd.<br><br>Oedolion hŷn (65+ oed)<br>• newidiadau mewn symudedd, lefelau ffitrwydd a hyder corfforol<br>• mwy o angen cyswllt cymdeithasol<br>• mwy o angen gweithgareddau hygyrch neu wedi'u haddasu. |

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | |
|---|---|
| 2.1.4<br>Risgiau ffordd eisteddog neu wedi arwahanu yn gymdeithasol o fyw i unigolion, cymunedau ac economi Cymru/y DU | Dylai'r dysgwyr ddeall y risgiau sy'n gysylltiedig â dilyn ffordd eisteddog neu wedi arwahanu yn gymdeithasol o fyw i unigolion, cymunedau ac economi Cymru/y DU, gan gynnwys:<br><br>Unigolion:<br>• datblygu cyflyrau iechyd cronig, er enghraifft:<br>    • gorbwysedd<br>    • clefyd coronaidd y galon<br>    • strôc<br>    • diabetes<br>    • gordewdra<br>• colli cryfder cyhyrau a dygnwch cyhyrol<br>• colli symudedd<br>• cynyddu'r risg o gyflyrau iechyd meddwl<br>• unigrwydd.<br><br>Cymuned:<br>• gostwng lefel rhyngweithio cymdeithasol<br>• lleihau ymdeimlad o gymuned a pherthyn<br>• colli traddodiadau a diwylliant<br>• lleihau'r defnydd o gyfleusterau a mwynderau lleol.<br><br>Economi Cymru/y DU:<br>• cynnydd yn y boblogaeth sydd â chyflyrau iechyd tymor hir – mwy o gostau a phwysau ar y GIG a gwasanaethau cymdeithasol<br>• cynyddu amseroedd aros ysbytai<br>• llai o weithgaredd economaidd. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| 2.2 Deall rhwystrau sy'n atal pobl rhag cymryd rhan | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>2.2.1 Y rhwystrau sy'n atal pobl rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a hamdden<br>2.2.2 Sut mae'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yn goresgyn rhwystrau sy'n atal pobl rhag cymryd rhan | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 2.2.1<br>Y rhwystrau sy'n atal pobl rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a hamdden | Dylai'r dysgwyr ddeall y rhesymau pam mae rhwystrau i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a hamdden yn bodoli.<br><br>**Rhwystrau Systemig**<br>Mae'r rhwystrau hyn yn deillio o strwythurau, polisïau a systemau ehangach ar lefel leol neu genedlaethol, gan gynnwys:<br>• toriadau cyllid<br>• isadeiledd<br>• argaeledd cyfleusterau<br>• polisïau.<br><br>**Rhwystrau Diwylliannol**<br>Mae'r rhwystrau hyn yn deillio o ddisgwyliadau diwylliannol, normau cymdeithasol, neu arferion crefyddol sy'n dylanwadu ar y mathau o weithgareddau y bydd unigolion a chymunedau'n teimlo eu bod yn gallu cymryd rhan ynddynt neu'n gyfforddus yn gwneud hynny, gan gynnwys:<br>• traddodiadau a disgwyliadau diwylliannol<br>• gofynion o ran gwisg a dillad<br>• normau rhywedd<br>• rhwystrau ieithyddol<br>• ofn gwahaniaethu<br>• diffyg modelau rôl diwylliannol.<br><br>**Rhwystrau Sefydliadol**<br>Mae'r rhwystrau hyn yn deillio o'r ffordd y bydd sefydliadau'n cynllunio, yn trefnu ac yn darparu eu rhaglenni. Heb ystyried yn ofalus, gall y penderfyniadau hyn allgáu rhai unigolion neu gymunedau yn anfwriadol, gan gynnwys:<br>• cost ac argaeledd<br>• bodloni anghenion unigolion neu'r gymuned. |
| 2.2.2<br>Sut mae'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yn goresgyn rhwystrau sy'n atal pobl rhag cymryd rhan | Dylai'r dysgwyr wybod y gwahaniaeth rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.<br><br>**Sector Cyhoeddus –** sefydliadau y mae'r llywodraeth neu awdurdodau lleol yn berchen arnynt ac yn eu hariannu, gan weithredu ar sail nid-er-elw gyda'r nod o gefnogi pobl a chymunedau. Mae'r rhain yn cynnwys:<br>• canolfannau hamdden awdurdodau lleol<br>• pyllau nofio a gaiff eu rhedeg gan gynghorau |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | |
|---|---|
| | • parciau cyhoeddus a champfeydd awyr agored<br>• cyfleusterau chwaraeon ysgolion (pan fyddent yn cael eu rhedeg gan yr awdurdod lleol).<br><br>**Sector Preifat –** darparwyr sy'n cael eu harwain gan elw, gan gynnwys campfeydd, clybiau iechyd, sbâu, a chlybiau chwaraeon preifat.<br>Mae'r rhain yn cynnwys:<br>• campfeydd masnachol<br>• stiwdios ffitrwydd a chlybiau iechyd preifat<br>• sbâu a chanolfannau iechyd da<br>• clybiau chwaraeon proffesiynol.<br><br>**Sector Gwirfoddol –** sefydliadau nid-er-elw, sy'n aml yn elusennau ac sy'n canolbwyntio ar gefnogaeth gymunedol, cynhwysiant, a gwerth cymdeithasol.<br>Mae'r rhain yn cynnwys:<br>• clybiau chwaraeon cymunedol<br>• sefydliadau chwaraeon ieuenctid (er enghraifft: clybiau pêl-droed neu bêl-rwyd lleol)<br>• elusennau sy'n hybu iechyd a llesiant (er enghraifft: *Mind, Sported*)<br>• sefydliadau chwaraeon anabledd (er enghraifft: *WheelPower, Special Olympics GB*)<br>• grwpiau cerdded neu ffitrwydd cymunedol.<br><br>Dylai'r dysgwyr ddeall sut mae'r sectorau hyn yn goresgyn rhwystrau sy'n atal pobl rhag cymryd rhan mewn chwaraeon a hamdden.<br><br>**Trafnidiaeth:**<br>• parcio am ddim neu â disgownt<br>• darpariaeth trafnidiaeth hygyrch<br>• prisiau teithio is ar drafnidiaeth gyhoeddus.<br><br>**Costau:**<br>• prisiau sesiynau â disgownt<br>• sesiynau gweithgareddau am ddim<br>• ymgyrchoedd hyrwyddo sy'n targedu grwpiau penodol<br>• cyllid i deuluoedd.<br><br>**Cyfleusterau ac Adnoddau:**<br>• llogi cyfarpar<br>• defnyddio cyfleusterau cyhoeddus am ddim<br>• talu i ddefnyddio cyfleusterau preifat<br>• cyflogi staff arbenigol<br>• oriau agor estynedig.<br><br>**Hybu Cynhwysiant:**<br>• cyfarpar addasol<br>• sesiynau ar gyfer grwpiau penodol<br>• hyfforddiant staff ar ymwybyddiaeth o anabledd, amrywiaeth diwylliannol, a chynhwysiant<br>• hybu amrywiaeth ddiwylliannol a modelau rôl ar lefelau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | |
|---|---|
| | • hybu modelau rôl o gyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol<br>• cyngor a chyfeirio at weithgareddau iechyd, ffitrwydd a llesiant. |

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| 2.3 Cynyddu cyfranogiad a hybu iechyd, ffitrwydd a llesiant | |
|---|---|
| Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>2.3.1 Strategaethau a allai gael eu defnyddio i gynyddu cyfranogiad mewn gweithgareddau chwaraeon a hamdden<br>2.3.2 Gwerthuso effeithiolrwydd strategaethau i gynyddu lefelau cynhwysiant mewn gweithgaredd corfforol a hamdden i hybu iechyd, ffitrwydd a llesiant | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 2.3.1<br>Strategaethau a allai gael eu defnyddio i gynyddu cyfranogiad mewn gweithgareddau chwaraeon a hamdden | Dylai'r dysgwyr ddeall y strategaethau a allai gael eu defnyddio i annog cynnydd mewn cyfranogiad mewn gweithgareddau chwaraeon a hamdden, er enghraifft:<br><br>• mentrau dan arweiniad cyfoedion, gan gynnwys systemau cyfeillio a chenhadon gweithgareddau<br>• trefnu digwyddiadau a chystadlaethau cynhwysol<br>• cynyddu argaeledd trafnidiaeth<br>• cynnig mwy o sesiynau gweithgareddau<br>• diwrnodau gweithgareddau sy'n targedu grwpiau amrywiol<br>• ymgyrchu i hybu manteision gweithgareddau chwaraeon a hamdden<br>• cydweithio â chlybiau a gwirfoddolwyr cymunedol<br>• casglu safbwyntiau cyfranogwyr drwy arolygon neu holiaduron<br>• defnyddio technoleg i annog cyfranogiad drwy'r cyfryngau cymdeithasol. |
| 2.3.2<br>Gwerthuso effeithiolrwydd strategaethau i gynyddu lefelau cynhwysiant mewn gweithgaredd corfforol a hamdden i hybu iechyd, ffitrwydd a llesiant | Dylai'r dysgwyr ddeall gwahanol fathau o ddata, dulliau casglu data, a ffyrdd o gyflwyno data.<br><br>**Mathau o Ddata:**<br>• ansoddol: data disgrifiadol sy'n esbonio barn, teimladau, neu brofiadau<br>• meintiol: data rhifol y mae modd eu mesur a'u cyfrif<br>• goddrychol: yn seiliedig ar farn neu brofiadau personol<br>• amcan: yn seiliedig ar dystiolaeth ffeithiol a mesuradwy.<br><br>**Dulliau Casglu Data:**<br>• holiaduron neu arolygon<br>• cyfweliadau<br>• profion neu sgrinio iechyd<br>• dyddiaduron neu logiau gweithgarwch<br>• technoleg ddigidol wisgadwy (fel watshis clyfar)<br>• ystadegau cronnus (er enghraifft, cyfraddau cyfranogiad, ffigurau presenoldeb).<br><br>**Dulliau Cyflwyno Data:**<br>• graffiau (siartiau bar, graffiau llinell, siartiau cylch)<br>• tablau<br>• crynodebau ysgrifenedig/testunol<br>• pictogramau neu ddarluniau esboniadol. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | |
|---|---|
| | Dylai'r dysgwyr allu gwerthuso a dehongli data er mwyn asesu effeithiolrwydd strategaethau, rhaglenni, ac ymyriadau. |

## Cyfleoedd ar gyfer integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â'r byd gwaith

Mae'r uned hon yn creu cyfleoedd i ddatblygu'r profiadau dysgu canlynol (ni fydd y profiadau yn cael eu hasesu'n uniongyrchol):

- rhyngweithio â siaradwyr gwadd o'r sector chwaraeon a hamdden i gael mewnwelediad uniongyrchol i arferion, rolau a disgwyliadau'r byd go iawn
- gofyn cwestiynau a thrafod profiadau bywyd, astudiaethau achos, neu heriau yn y gymuned o fewn chwaraeon a hamdden gyda gweithwyr proffesiynol o'r diwydiant
- datblygu sgiliau cyfathrebu a rhwydweithio drwy ymgysylltu â hyfforddwyr, rheolwyr cyfleusterau ac aelodau eraill o staff chwaraeon a hamdden
- ymweld â chyfleusterau chwaraeon a hamdden er mwyn cael profiad uniongyrchol o gyfranogiad, darpariaeth a phrofiad cwsmeriaid
- cynllunio a chynnal gweithgaredd neu ddigwyddiad chwaraeon neu hamdden, gan gymhwyso sgiliau trefnu, ymarferol a gwaith tîm.

Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd y mae'r cymhwyster yn eu cynnig i athrawon/canolfannau i integreiddio'r profiadau a'r sgiliau dysgu hyn wrth ei gyflwyno.

Gweler Atodiad A am gyfleoedd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

# Uned 3 Datblygu Perfformiad Personol mewn Chwaraeon a Hamdden (dewisol)

| | |
|---|---|
| ODA | 72 |
| Cyfraniad at radd y cymhwyster | 60% |
| Trosolwg o'r uned | Yn yr uned hon, bydd y dysgwyr yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau sy'n gysylltiedig â pherfformiad mewn gweithgareddau chwaraeon a hamdden. Bydd y dysgwyr yn archwilio'r ffactorau ffisiolegol, seicolegol, technegol, tactegol a ffordd o fyw a all ddylanwadu ar berfformiad a chyfranogiad. Byddant hefyd yn dysgu sut i fesur, dadansoddi, a gwerthuso perfformiad er mwyn adnabod cryfderau, gwendidau a meysydd i'w gwella.<br><br>Mae'r uned yn canolbwyntio ar gymhwyso strategaethau ymarferol, egwyddorion ymarfer, a thechnegau gosod nodau i wella perfformiad ac ymgysylltiad. Bydd y dysgwyr yn ennill profiad o gynllunio, cynnal ac adolygu rhaglenni ymarfer neu weithgaredd, gan gofnodi cynnydd, a defnyddio data i lywio gwelliannau.<br><br>Mae'r uned hon yn helpu i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy megis meddwl yn feirniadol, dadansoddi, trefnu, cyfathrebu, a hunanfyfyrio, ac yn cynnig cyfleoedd i gamu ymlaen i ddysgu pellach, prentisiaethau, a chyflogaeth yn y sector chwaraeon a hamdden. |
| Testunau | Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:<br>3.1 Ffactorau sy'n dylanwadu ar berfformiad mewn gweithgareddau chwaraeon a hamdden<br>3.2 Dadansoddi perfformiad a/neu gyfranogiad mewn gweithgareddau chwaraeon a hamdden<br>3.3 Gwella perfformiad neu ymgysylltiad mewn gweithgareddau chwaraeon a hamdden<br>3.4 Gwerthuso cynnydd mewn perfformiad mewn gweithgareddau chwaraeon a hamdden |
| Crynodeb o'r asesu | Asesiad di-arholiad<br><br>7 awr o amser asesu dan oruchwyliaeth er mwyn i'r dysgwyr gwblhau'r tasgau gofynnol a chynhyrchu tystiolaeth i'w hasesu.<br><br>Gall yr amser a gaiff ei dreulio'n cynnal y rhaglen hyfforddi chwe wythnos fod y tu allan i'r amser asesu dan oruchwyliaeth penodedig, yn ystod amser astudio hunangyfeiriedig.<br><br>Dylai gymryd rhwng 6 a 12 awr i'w chynnal.<br><br>Wedi'i marcio gan y ganolfan a'i chymedroli gan CBAC<br>90 marc |
| Yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer yr asesiad | • Mynediad at TG, gan gynnwys dyfeisiau neu systemau er mwyn i'r dysgwyr ddogfennu, storio, a chyflwyno eu gwaith yn ddigidol |

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | |
|---|---|
| | • Dull o gasglu tystiolaeth weledol, fel camera neu ddyfais ddigidol, i ddogfennu canlyniadau ymarferol at ddibenion asesu.<br><br>**Ni** chaniateir defnyddio deallusrwydd artiffisial. |
| Cysylltiadau ag unedau a chymwysterau eraill CBAC | Gallai'r unedau Sgiliau Bywyd canlynol ategu cyflwyno'r uned hon:<br>• Deall yr hunan ac eraill.<br><br>Gallai'r unedau Sgiliau Gwaith canlynol ategu cyflwyno'r uned hon:<br>• Goresgyn Rhwystrau<br>• Cynllunio Datblygiad Personol<br>• Meithrin Meddylfryd Twf. |

## Cynnwys

| 3.1 Ffactorau sy'n dylanwadu ar berfformiad mewn gweithgareddau chwaraeon a hamdden | |
|---|---|
| Yn y testun hwn, bydd y dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol sy'n effeithio ar berfformiad:<br>3.1.1 Ffactorau ffisiolegol sy'n dylanwadu ar y gallu i berfformio<br>3.1.2 Ffactorau seicolegol sy'n dylanwadu ar y gallu i berfformio<br>3.1.3 Ffactorau technegol a thactegol sy'n dylanwadu ar y gallu i berfformio<br>3.1.4 Ffactorau ffordd o fyw sy'n dylanwadu ar y gallu i berfformio | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 3.1.1<br>Ffactorau ffisiolegol sy'n dylanwadu ar y gallu i berfformio | Dylai'r dysgwyr ddeall sut mae ffactorau ffisiolegol yn dylanwadu ar berfformiad, gan gynnwys:<br><br>• cyfansoddiad y corff:<br>  • math o gorff (mesomorff, ectomorff, endomorff), pwysau'r corff<br>  • braster y corff<br>  • cyhyr<br>• elfennau iechyd a ffitrwydd:<br>  • dygnwch cardiofasgwlar<br>  • dygnwch cyhyrol<br>  • hyblygrwydd<br>  • cryfder cyhyrau<br>  • ystwythder<br>  • cydbwysedd<br>  • cydsymud<br>  • amser adweithio<br>  • pŵer<br>  • cyflymder. |
| 3.1.2<br>Ffactorau seicolegol sy'n dylanwadu ar y gallu i berfformio | Dylai'r dysgwyr ddeall sut mae ffactorau seicolegol yn dylanwadu ar berfformiad, gan gynnwys:<br><br>• cymhelliant – diffiniad a mathau (cynhenid ac allanol)<br>• gorbryder – achosion a symptomau: |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | |
|---|---|
| | • gorbryder somatig (effeithiau corfforol)<br>• gorbryder gwybyddol (effeithiau meddyliol). |
| 3.1.3<br>Ffactorau technegol a thactegol sy'n dylanwadu ar y gallu i berfformio | Dylai'r dysgwyr ddeall sut mae ffactorau technegol yn dylanwadu ar berfformiad, gan gynnwys:<br><br>• techneg – gan gynnwys diffiniad a manteision gwella techneg i berfformwyr<br>• strategaethau/cynllun chwarae – gan gynnwys diffiniad a ffactorau sy'n effeithio ar benderfyniadau mewn perthynas â strategaethau/gêm<br>• tactegau – unigol a thîm – gan gynnwys diffiniad, enghreifftiau o dactegau y mae modd eu defnyddio i hwyluso strategaeth/cynllun chwarae mewn chwaraeon neu weithgareddau tîm neu unigol. |
| 3.1.4<br>Ffactorau ffordd o fyw sy'n dylanwadu ar y gallu i berfformio | Dylai'r dysgwyr ddeall y ffactorau ffordd o fyw canlynol a sut maent yn dylanwadu ar berfformiad:<br><br>• deiet, maeth a hydradiad, elfennau deiet cytbwys<br>• paratoi ac ymadfer<br>• patrymau cysgu<br>• alcohol, smygu, cymryd cyffuriau anghyfreithlon<br>• gweithgaredd corfforol<br>• iechyd a ffitrwydd. |

| 3.2 Dadansoddi perfformiad a/neu gyfranogiad mewn gweithgareddau chwaraeon a hamdden | |
|---|---|
| Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>3.2.1 Mesur ffactorau sy'n dylanwadu ar berfformiad a/neu gyfranogiad<br>3.2.2 Dadansoddi data perfformiad a/neu gyfranogiad | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 3.2.1<br>Mesur ffactorau sy'n dylanwadu ar berfformiad a/neu gyfranogiad | Dylai'r dysgwyr allu adnabod a chynnal y prawf neu'r offer monitro priodol i fesur ffactorau ffisiolegol, seicolegol, technegol, tactegol a ffordd o fyw.<br><br>Ffactorau ffisiolegol:<br>• profion ffitrwydd i fesur dygnwch cardiofasgwlar, dygnwch cyhyrol, hyblygrwydd, cryfder cyhyrau, ystwythder, cydbwysedd, cydsymud, amser adweithio, pŵer a chyflymder.<br><br>Ffactorau seicolegol:<br>• arsylwadau gweledol neu arsylwadau fideo i asesu lefelau cymhelliant cyn ac yn ystod perfformiad<br>• cyfweliadau â pherfformwyr i asesu lefelau cymhelliant a gorbryder cyn ac yn ystod gweithgareddau<br>• dyddiadur wedi'i gwblhau gan berfformiwr cyn ac ar ôl gweithgaredd ynglŷn â lefelau gorbryder a chymhelliant<br>• holiaduron i fesur gorbryder. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | |
|---|---|
| | Ffactorau technegol a thactegol:<br>• arsylwadau gweledol neu arsylwadau fideo i asesu lefel technegau perfformiad<br>• cyfweliadau â pherfformwyr cyn perfformiad i asesu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r strategaethau/cynlluniau gêm ar waith a'r tactegau a fydd yn cael eu defnyddio i hwyluso strategaeth/cynlluniau gêm<br>• arsylwadau gweledol neu arsylwadau fideo i adnabod ac asesu technegau a ddefnyddiwyd yn ystod perfformiad<br>• cyfweliadau â pherfformwyr ar ôl perfformiad er mwyn asesu lefel llwyddiant strategaeth/cynllun gêm a thactegau a ddefnyddiwyd yn ystod y gweithgaredd.<br><br>Ffactorau Ffordd o Fyw:<br>• profion/sgrinio iechyd er mwyn mesur cyfansoddiad y corff, pwysedd gwaed a chyfradd curiad y galon<br>• holiadur ffordd o fyw<br>• cymeriant caloriau, cydbwysedd egni, maeth a hydradiad. |
| 3.2.2<br>Dadansoddi data perfformiad a/neu gyfranogiad | Dylai'r dysgwyr allu dadansoddi perfformiad a data, gan gynnwys:<br><br>• data ansoddol a meintiol<br>• mesurau goddrychol a gwrthrychol, gan gynnwys adnabod cryfderau a gwendidau<br>• tablau amrediad normadol a meincnodi yn erbyn safonau disgwyliedig<br>• dibynadwyedd a dilysrwydd y data a gesglir<br>• technegau dadansoddi fideo<br>• dulliau dadansoddi nodiannol. |

| 3.3 Gwella perfformiad neu ymgysylltiad mewn gweithgareddau chwaraeon a hamdden | |
|---|---|
| Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>3.3.1 Strategaethau i wella perfformiad<br>3.3.2 Egwyddorion ymarfer<br>3.3.3 Gosod nodau | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 3.3.1<br>Strategaethau i wella perfformiad | Dylai'r dysgwyr ddeall strategaethau i wella perfformiad, gan gynnwys:<br><br>• rhaglen ymarfer – dewis dulliau ymarfer priodol – ysbeidiol a di-dor (fartlek, ymarfer cylchol, codi pwysau, plyometreg)<br>• delweddaeth/ymarfer yn feddyliol<br>• hunansiarad<br>• adborth – cynhenid ac anghynhenid |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | • mathau o ymarfer (cyfan, rhannol, sefydlog ac amrywiol)<br>• cynllun maeth – gan gynnwys mathau penodol neu arbennig o ddeiet (llwytho carbohydradau neu brotein uchel)<br>• dulliau ymadfer – oeri'r corff, baddonau iâ, tylino'r corff. |
| 3.3.2<br>Egwyddorion ymarfer | Dylai'r dysgwyr ddeall egwyddorion ymarfer a sut y dylid eu cymhwyso at wahanol raglenni ymarfer, gan gynnwys:<br><br>• penodoldeb<br>• gorlwytho (dwysedd, amlder, hyd)<br>• dilyniant<br>• amrywiant (er mwyn osgoi cyrraedd gwastadedd a diflasu). |
| 3.3.3<br>Gosod nodau | Dylai'r dysgwyr ddeall y rhesymau pam mae gosod targedau tymor byr a nodau tymor hir yn fuddiol i berfformiwr, gan gynnwys:<br><br>• manteision gosod nodau i iechyd, llesiant a pherfformiad:<br>    • ymlyniad<br>    • y perfformiwr yn canolbwyntio'n well ar y gweithgaredd<br>    • y perfformiwr yn gwneud mwy o ymdrech<br>    • gwell ffocws gan y perfformiwr yn ystod y gweithgaredd<br>    • mwy o gymhelliant i'r perfformiwr<br>• amcanion gosod targedau: targedau cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol (CAMPUS). |

## 3.4 Gwerthuso cynnydd mewn perfformiad mewn gweithgareddau chwaraeon a hamdden

Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:
3.4.1 Dulliau cofnodi perfformiad
3.4.2 Gwerthuso rhaglenni ymarfer
3.4.3 Cynllunio datblygiad

| Adran | Ymhelaethiad |
|---|---|
| 3.4.1<br>Dulliau cofnodi perfformiad | Dylai'r dysgwyr ddeall dulliau casglu a chofnodi data perfformiad a/neu gyfranogiad wrth gwblhau rhaglenni ymarfer neu weithgaredd, gan gynnwys:<br><br>• dyddiadur ymarfer<br>• adborth wedi'i gofnodi<br>• log cyfranogiad<br>• cynnydd tuag at dargedau tymor byr a nodau tymor hir<br>• holiadur cyn ac ar ôl ymarfer/gweithgaredd |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | |
|---|---|
| | • dyddiadur cwsg<br>• dyddiadur bwyd<br>• canlyniadau profion iechyd<br>• canlyniadau profion ffitrwydd. |
| 3.4.2<br>Gwerthuso rhaglenni ymarfer | Dylai'r dysgwyr allu gwerthuso rhaglenni ymarfer drwy wneud y canlynol:<br><br>• defnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth a data i lywio eu gwerthusiad, fel adfyfyrio personol, ac adborth gan hyfforddwr, arweinydd gweithgaredd neu berfformwyr eraill<br>• defnyddio data ansoddol a meintiol i gefnogi'r adolygiad<br>• asesu i ba raddau y mae targedau tymor byr a nodau tymor hir wedi cael eu cyflawni<br>• adnabod cryfderau a gwendidau'r rhaglen ymarfer. |
| 3.4.3<br>Cynllunio datblygiad | Dylai'r dysgwyr allu gwella perfformiad yn y dyfodol drwy wneud y canlynol:<br><br>• gosod targedau tymor byr a nodau tymor hir sy'n canolbwyntio ar feysydd i'w gwella a nodwyd<br>• dewis a defnyddio dulliau priodol o wella. |

## Cyfleoedd ar gyfer integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â'r byd gwaith

Mae'r uned hon yn creu cyfleoedd i ddatblygu'r profiadau dysgu canlynol (ni fydd y profiadau yn cael eu hasesu'n uniongyrchol):

- rhyngweithio â siaradwyr gwadd o'r diwydiant chwaraeon a hamdden i gael mewnwelediad uniongyrchol i ddatblygu perfformiad ac arferion go iawn mewn chwaraeon a hamdden
- gofyn cwestiynau a thrafod dylanwadau ffisiolegol, seicolegol, technegol, tactegol a ffordd o fyw mewn chwaraeon a hamdden gyda gweithwyr proffesiynol o'r diwydiant
- datblygu sgiliau cyfathrebu a rhwydweithio drwy ymgysylltu â hyfforddwyr, rheolwyr cyfleusterau ac aelodau eraill o staff chwaraeon a hamdden
- ymweld â chyfleusterau chwaraeon a hamdden er mwyn cael profiad uniongyrchol o berfformiad, cynnydd ac adolygu
- cynllunio a chynnal gweithgaredd neu ddigwyddiad chwaraeon neu hamdden, gan gymhwyso sgiliau trefnu, ymarferol a gwaith tîm.

Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd y mae'r cymhwyster yn eu cynnig i athrawon/canolfannau i integreiddio'r profiadau a'r sgiliau dysgu hyn wrth ei gyflwyno.

Gweler Atodiad A am gyfleoedd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol.

© WJEC CBAC Ltd 2026

# Uned 4 Arwain a Hyfforddi mewn Chwaraeon a Hamdden (dewisol)

| | |
|---|---|
| ODA | 72 awr |
| Cyfraniad at radd y cymhwyster | 60% |
| Trosolwg o'r uned | Yn yr uned hon, bydd y dysgwyr yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn ag arwain a chyfranogiad mewn cyd-destunau chwaraeon a hamdden. Bydd y dysgwyr yn cynllunio, yn cynnal ac yn adolygu sesiynau gweithgareddau ar gyfer grŵp dethol, gan gymhwyso sgiliau ymarferol, trefnu a chyfathrebu priodol.<br><br>Mae'r uned yn canolbwyntio ar ymarfer cynhwysol, iechyd a diogelwch, diogelu ac arwain effeithiol. Bydd y dysgwyr yn datblygu'r gallu i fodloni anghenion cyfranogwyr ac hybu cyfranogiad diogel, hwyliog a difyr.<br><br>Mae'r uned hon yn helpu i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy ac yn cynnig cyfleoedd i gamu ymlaen i ddysgu pellach, prentisiaethau a chyflogaeth yn y sector chwaraeon a hamdden. |
| Testunau | 4.1 Sgiliau, cyfrifoldebau a rhinweddau sydd eu hangen ar arweinydd neu hyfforddwr effeithiol<br>4.2 Cynllunio wrth arwain a hyfforddi<br>4.3 Ymarfer effeithiol wrth arwain neu hyfforddi<br>4.4. Adfyfyrio ar arwain a hyfforddi |
| Crynodeb o'r asesu | Asesiad di-arholiad<br><br>7 awr o amser asesu dan oruchwyliaeth er mwyn i'r dysgwyr gwblhau'r tasgau gofynnol a chynhyrchu tystiolaeth i'w hasesu.<br><br>Wedi'i farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC<br><br>90 marc |
| Yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer yr asesiad | • Mynediad at TG, gan gynnwys dyfeisiau neu systemau er mwyn i'r dysgwyr<br>ddogfennu, storio, a chyflwyno eu gwaith yn ddigidol<br>dull o gasglu tystiolaeth weledol, fel camera neu ddyfais ddigidol, i ddogfennu canlyniadau ymarferol at ddibenion asesu.<br><br>**Ni** chaniateir defnyddio deallusrwydd artiffisial. |
| Cysylltiadau ag unedau a chymwysterau eraill CBAC | Gallai'r unedau Sgiliau Bywyd canlynol ategu cyflwyno'r uned hon:<br>• Deall yr hunan ac eraill.<br><br>Gallai'r unedau Sgiliau Gwaith canlynol ategu cyflwyno'r uned hon:<br>• Goresgyn Rhwystrau<br>• Cynllunio Datblygiad Personol. |

© WJEC CBAC Ltd 2026

## Cynnwys

### 4.1 Sgiliau, cyfrifoldebau a rhinweddau sydd eu hangen ar arweinydd neu hyfforddwr effeithiol

Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:
4.1.1 Sgiliau arweinydd neu hyfforddwr effeithiol
4.1.2 Cyfrifoldebau arweinydd neu hyfforddwr effeithiol
4.1.3 Rhinweddau arweinydd neu hyfforddwr effeithiol

| Adran | Ymhelaethiad |
|---|---|
| 4.1.1<br>Sgiliau arweinydd neu hyfforddwr effeithiol | Dylai'r dysgwyr allu dangos y sgiliau sydd eu hangen i fod yn arweinydd neu'n hyfforddwr effeithiol, gan gynnwys:<br><br>• y gallu i addasu<br>• sgiliau arsylwi – yr hyn sy'n gweithio'n dda, pwy sy'n bod yn llwyddiannus, yr hyn sydd angen ei newid, adborth<br>• cyfathrebu'n effeithiol – geiriol a dieiriau<br>• y gallu i gymell, ysbrydoli a grymuso cyfranogwyr<br>• gwybodaeth a chymhwyso sy'n berthnasol i weithgaredd penodol<br>• rheoli ymddygiad<br>• trefnu – adnoddau, cyfranogwyr, cyfleusterau, amseru a chynllunio. |
| 4.1.2<br>Cyfrifoldebau arweinydd neu hyfforddwr effeithiol | Dylai'r dysgwyr allu dangos y cyfrifoldebau sydd eu hangen i fod yn arweinydd neu'n hyfforddwr effeithiol, gan gynnwys:<br><br>• iechyd a diogelwch – sicrhau bod yr amgylchedd, y cyfranogwyr, y gweithgareddau, y cyfarpar, a dillad/esgidiau'r cyfranogwyr yn ddiogel ac yn briodol.<br>• ymddygiad proffesiynol – cynnal safonau o ran gwisgoedd, iaith, cadw amser, ac ymddygiad.<br>• asesu risg – ystyried cyfleusterau, cyfarpar, cyfranogwyr, a rheolau, cyfreithiau, neu reoliadau perthnasol.<br>• diogelu – hybu iechyd, llesiant, diogelwch a lles y cyfranogwyr.<br>• dyletswydd gofal – gweithredu mewn ffordd gyfrifol er mwyn diogelu cyfranogwyr bob amser. |
| 4.1.3<br>Rhinweddau arweinydd neu hyfforddwr effeithiol | Dylai'r dysgwyr allu dangos y rhinweddau sydd eu hangen i fod yn arweinydd neu'n hyfforddwr effeithiol, gan gynnwys:<br><br>• cymell: sicrhau bod y cyfranogwyr yn cael eu cynnwys, a chynnal eu diddordeb<br>• canolbwyntio ar y cyfranogwr: ffocws ar anghenion, galluoedd a nodau'r grŵp<br>• adfyfyriol: ystyried beth aeth yn dda a beth y gellid ei wella |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

<table>
<tr><td></td><td><ul><li>meithringar: cynnig cefnogaeth ac anogaeth</li><li>cynhwysol: sicrhau y gall pawb gymryd rhan mewn modd ystyrlon</li><li>angerddol: dangos brwdfrydedd a chymell eraill.</li></ul></td></tr>
</table>

<table>
<tr><th colspan="2">4.2 Cynllunio wrth arwain a hyfforddi</th></tr>
<tr><td colspan="2">Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>4.2.1 Arddulliau arwain<br>4.2.2 Bodloni anghenion y cyfranogwyr mewn sesiynau gweithgareddau<br>4.2.3 Cynllunio sesiynau gweithgareddau</td></tr>
<tr><th>Adran</th><th>Ymhelaethiad</th></tr>
<tr><td>4.2.1<br>Arddulliau arwain</td><td>Dylai'r dysgwyr ddeall cryfderau a gwendidau'r arddulliau arwain, gan gynnwys:<ul><li>Awtocrataidd (Dweud)</li><li>Democrataidd (Cynnwys)</li><li>Laissez-faire (Dirprwyo).</li></ul>Dylai'r dysgwyr allu dewis a defnyddio'r arddull arwain sydd fwyaf addas ar gyfer sefyllfa benodol.</td></tr>
<tr><td>4.2.2<br>Bodloni anghenion y cyfranogwyr mewn sesiynau gweithgareddau</td><td>Dylai'r dysgwyr ddeall anghenion y cyfranogwyr wrth gynllunio a chynnal sesiynau gweithgareddau, gan gynnwys:<ul><li>dynameg grŵp, gan gynnwys:<ul><li>gallu (cam dysgu – gwybyddol, cysylltiadol ac ymreolaethol)</li><li>oedran</li><li>rhywedd</li><li>diwylliant</li><li>crefydd</li><li>gwybodaeth am sesiynau blaenorol</li></ul></li><li>ystyried gweithgareddau priodol, gan gynnwys:<ul><li>mathau o gyfarwyddyd (gweledol, geiriol a mecanyddol/â llaw)</li><li>camau dysgu perthnasol (gwybyddol, cysylltiadol ac ymreolaethol).</li></ul></li></ul></td></tr>
<tr><td>4.2.3<br>Cynllunio Sesiynau Gweithgareddau</td><td>Dylai'r dysgwyr allu cynllunio sesiynau gweithgareddau, gan gynnwys:<ul><li>nodau, amcanion a deilliannau dysgu</li><li>gofynion iechyd a diogelwch, gan gynnwys asesiad risg</li><li>nodi anghenion y cyfranogwyr</li><li>dewis gweithgareddau priodol, gan ganolbwyntio ar fathau o gyfarwyddyd (gweledol, geiriol a mecanyddol/â llaw) a'r camau dysgu perthnasol (gwybyddol, cysylltiadol ac ymreolaethol)</li></ul></td></tr>
</table>

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | |
|---|---|
| | • yr adnoddau y bydd eu hangen. |

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

DRAFT

| 4.3 Ymarfer effeithiol wrth arwain neu hyfforddi | |
|---|---|
| Yn y testun hwn, bydd y dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y maes canlynol:<br>4.3.1 Cymhwyso sgiliau arwain neu hyfforddi | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 4.3.1<br>Cymhwyso sgiliau arwain neu hyfforddi | Dylai'r dysgwyr allu dangos sgiliau, cyfrifoldebau a rhinweddau arwain neu hyfforddi, gan gynnwys:<br><br>• iechyd a diogelwch – sicrhau bod y cyfleusterau, y cyfarpar, nifer y cyfranogwyr, a'r lle sydd ar gael yn ddiogel ac yn briodol.<br>• amcanion y sesiwn – cynnal gweithgareddau sy'n cyflawni nodau ac amcanion cynllun y sesiwn.<br>• anghenion y cyfranogwyr – addasu gweithgareddau, rhoi cyfarwyddyd technegol<br>• pwyntiau hyfforddi, a rhoi adborth adeiladol<br>• cynhwysiant ac ymgysylltu – hybu cyfranogiad a sicrhau y caiff pob cyfranogwr ei gynnwys. |

| 4.4. Adfyfyrio ar arwain a hyfforddi | |
|---|---|
| Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>4.4.1 Gwerthuso sesiynau gweithgareddau<br>4.4.2 Cynllunio datblygiad | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 4.4.1<br>Gwerthuso sesiynau gweithgareddau | Dylai'r dysgwyr allu adolygu sesiynau gweithgareddau, gan gynnwys:<br><br>• defnyddio gwahanol ffynonellau adborth i lywio'r adolygiad, gan gynnwys:<br>    • adborth gan aseswyr<br>    • adborth gan gyfranogwyr<br>    • adfyfyrio personol<br>    • recordiad fideo<br>• dadansoddi data ansoddol a meintiol i lywio'r adolygiad<br>• gwerthuso i ba raddau y cafodd nodau ac amcanion y sesiwn eu cyflawni<br>• adnabod cryfderau a gwendidau'r sesiynau gweithgareddau. |
| 4.4.2<br>Cynllunio datblygiad | Dylai'r dysgwyr allu gwella eu perfformiad arwain neu hyfforddi drwy wneud y canlynol:<br><br>• defnyddio cynllun datblygu i dargedu meysydd penodol i'w gwella<br>• defnyddio dulliau gwella, er enghraifft:<br>    • ennill profiad ymarferol<br>    • cwblhau cyrsiau wedi'u hachredu |

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | |
|---|---|
| | • arsylwi ar arferion da<br>• ehangu gwybodaeth am y pwnc. |

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

## Cyfleoedd ar gyfer integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â'r byd gwaith

Mae'r uned hon yn creu cyfleoedd i ddatblygu'r profiadau dysgu canlynol (ni fydd y profiadau yn cael eu hasesu'n uniongyrchol):

- rhyngweithio â siaradwyr gwadd o'r sector chwaraeon a hamdden i gael mewnwelediad uniongyrchol i rolau, cyfrifoldebau a disgwyliadau arwain mewn chwaraeon a hamdden
- gofyn cwestiynau a thrafod arwain effeithiol, ymarfer cynhwysol, iechyd a diogelwch a diogelu gyda gweithwyr proffesiynol o'r diwydiant
- datblygu sgiliau cyfathrebu a rhwydweithio drwy ymgysylltu â hyfforddwyr, rheolwyr cyfleusterau ac aelodau eraill o staff chwaraeon a hamdden
- ymweld â chyfleusterau chwaraeon a hamdden i arsylwi ar sesiynau gweithgareddau sy'n cael eu cynnal neu helpu i'w cynnal er mwyn cael profiad uniongyrchol o reoli grwpiau a hybu cyfranogiad diogel
- cynllunio a chynnal gweithgaredd neu ddigwyddiad chwaraeon neu hamdden, gan gymhwyso sgiliau trefnu, ymarferol a gwaith tîm.

Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd y mae'r cymhwyster yn eu cynnig i athrawon/canolfannau i integreiddio'r profiadau a'r sgiliau dysgu hyn wrth ei gyflwyno.

Gweler Atodiad A am gyfleoedd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

# 3. Asesu

Bydd y Pecyn Asesu yn cynnwys yr holl wybodaeth fanwl sy'n ymwneud ag asesu.

## 3.1. Amcanion asesu a phwysoliadau

Mae amcanion asesu'r cymhwyster hwn wedi'u nodi isod. Rhaid i ddysgwyr wneud y canlynol:

### AA1
Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o chwaraeon a hamdden

### AA2
Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o chwaraeon a hamdden

### AA3
Dehongli a gwerthuso e.e. gwybodaeth/syniadau/tystiolaeth mewn chwaraeon a hamdden

### AA4
Dangos a chymhwyso sgiliau mewn cyd-destunau chwaraeon a hamdden

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoliad pob amcan asesu i bob uned ac i'r cymhwyster yn gyffredinol.

| | AA1 | AA2 | AA3 | AA4 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Uned 1 | 10% | 10% | - | - | 20% |
| Uned 2 | - | 5% | 15% | - | 20% |
| Uned 3 neu Uned 4 | - | - | 10% | 50% | 60% |
| Pwysoliad cyffredinol | 10% | 15% | 25% | 50% | 100% |

## 3.2. Trosolwg o'r Asesu

### Uned 1

Asesir yr uned hon drwy brawf sector sy'n cael ei osod a'i farcio'n allanol a fydd ar gael yng nghyfres mis
Ionawr a chyfres yr haf. Bydd angen i'r dysgwyr gwblhau prawf sector byr, a fydd yn para awr,
a fydd wedi'i lunio i asesu gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol (AA1 ac AA2 yn unig).

Bydd y prawf yn cael ei farcio allan o 50. Bydd Adran A yn asesu AA1 (25 marc) ac yn cynnwys

© WJEC CBAC Ltd 2026

DRAFT

amrywiaeth o fathau o gwestiynau gwrthrychol, fel cwestiynau amlddewis, ymateb lluosog, llenwi'r bylchau, llusgo a gollwng, a chwestiynau man poeth. Bydd Adran B yn asesu AA2 (25 marc) ac yn
cynnwys amrywiaeth o fathau o gwestiynau gwrthrychol yn ogystal â chwestiynau ateb byr. Mae'n bosibl y caiff
senarios ysgogiad byr eu darparu fel rhan o'r cwestiynau hyn.

Rhaid i'r prawf hwn gael ei sefyll dan amodau arholiad a oruchwylir yn unol â gofynion y CGC
(gweler http://www.jcq.org.uk/exams-office/ice---instructions-for-conducting examinations).

Bydd yr asesiad cyntaf yn digwydd ym mis Ionawr 2028. Gall canolfannau gofrestru ymgeiswyr i sefyll
fersiwn copi caled neu fersiwn ar sgrin o'r prawf.

Mae'r prawf hwn yn cyfrannu 20% o gyfanswm gradd y cymhwyster ac mae'n cael ei osod a'i farcio'n allanol
gan CBAC

## Uned 2

Asesir yr uned hon drwy asesiad di-arholiad sy'n cael ei osod a'i farcio'n allanol. Bydd angen i'r dysgwyr gwblhau cyfres o dasgau yn seiliedig ar friff sy'n cael ei osod yn allanol ac sy'n canolbwyntio ar gynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon a hamdden. Bydd y briff yn gofyn i'r dysgwyr ddadansoddi data cyfranogiad, adnabod rhwystrau rhag ymgysylltu, a dylunio a gwerthuso menter sydd â'r nod o wella iechyd, ffitrwydd a llesiant ar gyfer grŵp targed penodedig. Bydd y dysgwyr yn cymhwyso eu gwybodaeth am strategaethau cyfranogiad, cynhwysiant a hyrwyddo mewn cyd-destun chwaraeon a hamdden.

Bydd briff yr asesiad yn cael ei ryddhau drwy Porth yn ystod wythnos gyntaf mis Medi i'w asesu yn y flwyddyn academaidd honno. Bydd y briff yn newid yn flynyddol. Ni ddylid rhoi'r briff na'r tasgau i'r ymgeiswyr hyd nes y byddan nhw'n dechrau'r asesiad. Bydd gan ganolfannau'r hyblygrwydd i drefnu'r asesiad ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd.

Mae'r asesiad di-arholiad hwn yn cyfrannu at 20% o radd gyffredinol y cymhwyster a bydd yn cymryd 5 awr i'w gwblhau. Dylid trefnu awr arall o amser dysgu. Gall canolfannau ddewis cyflwyno'r asesiad mewn un sesiwn neu ar draws sawl sesiwn fyrrach, yn dibynnu ar anghenion dysgwyr a hyd y tasgau. Bydd yr asesiad yn cael ei farcio allan o 50 marc.

## Uned 3 (dewisol)

Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu drwy asesiad di-arholiad wedi'i osod yn allanol, a fydd yn cael ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli'n allanol gan CBAC. Mae gofyn i ddysgwyr gwblhau cyfres o dasgau yn seiliedig ar friff sy'n cael ei osod yn allanol.

Bydd y briff yn cael ei ryddhau drwy Porth ar ddechrau Medi yn y flwyddyn addysgu gyntaf ac ni fwriedir iddo newid dros hyd oes y cymhwyster. Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau eu bod yn defnyddio fersiwn gyfredol yr asesiad fel y'i cyhoeddwyd ar Porth. Bydd gan ganolfannau'r hyblygrwydd i drefnu'r asesiad ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd.

Mae'r asesiad di-arholiad hwn yn cyfrannu 60% o gyfanswm gradd y cymhwyster a bwriedir iddo gymryd tua 7 awr i'w gwblhau. Gall canolfannau gynnal yr asesiad rhwng sawl sesiwn, yn dibynnu ar anghenion y dysgwyr a hyd y tasgau. Bydd yr asesiad yn cael ei farcio allan o 90 marc.

© WJEC CBAC Ltd 2026

Rhaid cyflwyno tystiolaeth ar gyfer cymedroli allanol yn ddigidol, naill ai fel ymatebion wedi'u hysgrifennu â llaw a'u sganio, neu wedi'u cwblhau'n electronig.

### Uned 4 (dewisol)

Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu drwy asesiad di-arholiad wedi'i osod yn allanol, a fydd yn cael ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli'n allanol gan CBAC. Mae gofyn i ddysgwyr gwblhau cyfres o dasgau yn seiliedig ar friff sy'n cael ei osod yn allanol.

Bydd y briff yn cael ei ryddhau drwy Porth ar ddechrau Medi yn y flwyddyn addysgu gyntaf ac ni fwriedir iddo newid dros hyd oes y cymhwyster. Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau eu bod yn defnyddio fersiwn gyfredol yr asesiad fel y'i cyhoeddwyd ar Porth. Bydd gan ganolfannau'r hyblygrwydd i drefnu'r asesiad ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd.

Mae'r asesiad di-arholiad hwn yn cyfrannu 60% o gyfanswm gradd y cymhwyster a bwriedir iddo gymryd tua 7 awr i'w gwblhau. Gall canolfannau gynnal yr asesiad rhwng sawl sesiwn, yn dibynnu ar anghenion y dysgwyr a hyd y tasgau. Bydd yr asesiad yn cael ei farcio allan o 90 marc.

Rhaid cyflwyno tystiolaeth ar gyfer cymedroli allanol yn ddigidol, naill ai fel ymatebion wedi'u hysgrifennu â llaw a'u sganio, neu wedi'u cwblhau'n electronig.

## 3.3. Rheoli'r asesiad di-arholiad

Mae'r asesiad di-arholiad wedi'i strwythuro ar draws tri chyfnod allweddol: gosod tasgau, gwneud tasgau, a marcio tasgau.

Rhaid i bob asesiad di-arholiad gadw at yr egwyddorion a nodir yn nogfennau'r CGC Cyfarwyddiadau ar gyfer Cynnal Asesiadau Di-arholiad (Cymwysterau Galwedigaethol a Thechnegol) a CGC Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (AI) mewn Asesiadau: Diogelu Uniondeb Cymwysterau. Noder **nad** yw canllawiau'r CGC ar gyfer Manylebau TAG a TGAU yn berthnasol i'r cymhwyster hwn.

### Gosod tasgau

Darperir pecynnau asesu ar gyfer pob uned yn unol â'r trefniadau a nodir yn 3.2.

### Gwneud Tasgau

Mae cwblhau'r asesiad di-arholiad yn cael ei lywio gan ddau gam:

- y cam ymchwil
- cam yr Asesiad Di-arholiad.

Efallai y gofynnir i ddysgwyr gynnal ymchwil fel rhan o'r cam ymchwil, gellir dod o hyd i wybodaeth am y cam ymchwil gan gynnwys dull ymchwil a chyfeirio, yn y pecyn asesu.

Yn ystod cam yr asesiad di-arholiad, gellir dod o hyd i wybodaeth am yr amodau asesu, wedi'u categoreiddio fel uchel, canolig ac isel yn y pecyn asesu. Gellir hefyd dod i hyd i wybodaeth am adnoddau, wedi'u categoreiddio fel dim, penodol, ac wedi'u caniatáu yn y pecyn asesu.

Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth am y defnydd o ddeallusrwydd artiffisial (AI) ar gael yng Nghanllaw i Athrawon CBAC Cynnal Asesiad Di-arholiad mewn Cymwysterau Cenedlaethol 14–16 a Chanllaw i Ymgeiswyr Cynnal Asesiad Di-arholiad mewn Cymwysterau Cenedlaethol 14–16.

© WJEC CBAC Ltd 2026

Mae ystyriaethau eraill wrth wneud tasgau, yn cynnwys:

- Amser: Mae pob pecyn asesu yn nodi cyfanswm yr amser sydd ar gael; rhoddir amser awgrymedig ar gyfer pob tasg er y gall ymgeiswyr ddyrannu'r amser hwn ar draws tasgau fel bo'n briodol.
- Goruchwylio a dilysu: Mae'r pecyn asesu yn nodi'r gofynion goruchwylio. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd dysgwyr yn cael eu goruchwylio gan athro wrth gwblhau tasgau asesu. Gall athrawon egluro gofynion tasgau ond rhaid iddynt beidio â rhoi adborth ar y dystiolaeth sy'n cael ei chynhyrchu. Rhaid i ddysgwyr ac athrawon lofnodi datganiadau sy'n cadarnhau dilysrwydd y gwaith a gyflwynwyd.

### Marcio Tasgau

Ar gyfer asesiad di-arholiad wedi'i farcio gan y ganolfan, rhaid i'r holl farcio gael ei wneud gan athro dynodedig sydd ag arbenigedd pwnc priodol, gan ddefnyddio'r meini prawf marcio a ddarperir yn y pecyn asesu. Mae'n rhaid i'r dystiolaeth gyd-fynd â'r disgwyliadau sydd wedi'u nodi yn y pecyn asesu.

Mae'n rhaid anodi tystiolaeth ysgrifenedig er mwyn dangos sut mae'n bodloni'r meini prawf marcio.

Lle bo angen, rhaid dogfennu tystiolaeth o berfformiad (er enghraifft, cyflwyniadau) gan ddefnyddio cofnodion arsylwi sy'n cynnwys sylwadau disgrifiadol a chrynodol.

Mae athrawon yn gyfrifol am sicrhau'r canlynol:

- bod yr asesiad yn cael ei gynnal yn unol â disgwyliadau'r pecyn asesu a chanllawiau'r CGC
- bod dyfarniadau yn cael eu gwneud yn erbyn y datganiadau band perfformiad yn unig
- bod y dystiolaeth yn ddilys, wedi'i hanodi'n glir, ac wedi'i chofnodi'n gywir
- pan ddefnyddir cofnodion arsylwi, eu bod yn cynnwys digon o fanylion i gefnogi penderfyniadau asesu.

## 3.4. Ailgyflwyno asesiadau di-arholiad

Gall athrawon ganiatáu un cyfle i ddysgwr wella ei dystiolaeth a'i hailgyflwyno i'w marcio cyn cyflwyno'r marciau terfynol i'w cymedroli. Ailgyflwyno yw'r enw ar y broses hon.

Rhaid trefnu'r asesiad mewnol yn ddigon ymlaen llaw i allu caniatáu digon o amser i gynnwys y cyfnod ailgyflwyno hwn, lle bo angen gwneud hynny, cyn y cymedroli allanol. Rhaid i ddysgwyr gwblhau'r asesiad cyflawn cyn i'w gwaith gael ei farcio yn y lle cyntaf, a chyn awdurdodi unrhyw ailgyflwyno sydd ei angen.

Rhaid i unrhyw adborth a dderbynnir gan ddysgwyr:

- fod yn ffeithiol, ac yn seiliedig ar yr hyn a welwyd yn eu gwaith.
- osgoi cyfarwyddo dysgwyr ar sut i wella eu marc
- gael ei ddogfennu a'i ddarparu i'w gymedroli'n allanol os gofynnir am hynny.

Rhaid i athrawon beidio â:

- chaniatáu sawl ailgyflwyniad ar sail mân newidiadau yn dilyn adborth
- caniatáu i ddysgwyr ychwanegu, newid, neu ddileu unrhyw waith ar ôl i'r ailgyflwyniad gael ei farcio.

Nid yw'n ofynnol i ddysgwyr gynhyrchu set hollol newydd o dystiolaeth ar gyfer ailgyflwyniad. Dylent ganolbwyntio ar y meysydd lle na wnaethant ennill y marc a ddymunwyd. O ganlyniad, efallai na fydd angen yr amser llawn a nodir yn y pecyn asesu, er y gallant ddefnyddio hyd at y dyraniad llawn os oes angen. Mae'r pecyn asesu yn nodi faint o amser

© WJEC CBAC Ltd 2026

DRAFT

yn fras y dylai dysgwyr ei dreulio yn cwblhau pob tasg. Pan fydd dysgwyr yn canolbwyntio ar dasgau penodol i'w hailgyflwyno, ni ddylai'r amser a ganiateir fod yn fwy na chyfanswm yr amser a awgrymir ar gyfer y tasgau hynny.

Nid oes angen creu taflen gyflwyno marciau ymgeisydd ar wahân i'w hailgyflwyno; Gellir diweddaru'r daflen wreiddiol gyda'r marciau diwygiedig a sylwadau ychwanegol. Dylai canolfannau gadw cofnodion mewnol o ailgyflwyniadau i ddarparu llwybr archwilio clir, a fydd yn ddefnyddiol os bydd ymholiadau'n codi. Dim ond y marciau terfynol a'r dystiolaeth sydd angen eu cyflwyno ar gyfer cymedroli allanol.

Unwaith y bydd marciau wedi'u cyflwyno i'w cymedroli, ni chaniateir ailgyflwyno'r un asesiad eto. Un cyfle sydd ar gael i ddysgwyr i ailsefyll yr asesiad yng nghyfresi asesu'r dyfodol. Wrth ailsefyll asesiad, rhaid i ganolfannau sicrhau bod dysgwyr yn defnyddio briff yr asesiad a ryddhawyd ar gyfer y gyfres honno. (gweler Adran 4.4).

## 3.5. Camymddwyn

Cyn dechrau'r cwrs, cyfrifoldeb athrawon yw rhoi gwybod i ymgeiswyr am reoliadau CBAC ynglŷn â chamymddwyn. Rhaid i ymgeiswyr beidio ag ymddwyn mewn ffordd annheg wrth baratoi gwaith ar gyfer TAAU Chwaraeon a Hamdden.

Mae gwybodaeth am gamymddwyn ar gael yn ein dogfen *Canllaw i atal, adrodd am ac ymchwilio i gamymddwyn*.

Rhaid rhoi gwybod i CBAC ar unwaith am unrhyw achos o gamymddwyn posibl neu gamymddwyn gwirioneddol (camymddwyn@cbac.co.uk). Os bydd ymgeiswyr yn camymddwyn, mae'n bosibl y byddant yn cael eu cosbi neu eu diarddel o'r arholiadau.

Ym mhob achos o gamymddwyn, cynghorir canolfannau i ddilyn cyngor llyfryn y CGC *Amau Camymddwyn: Polisïau a Gweithdrefnau*.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

# 4. Gwybodaeth dechnegol

## 4.1. Cofrestriadau unedau

Cymhwyster unedol yw hwn. Caiff ymgeiswyr eu cofrestru ar gyfer pob uned ar wahân.

Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn y cyfnod asesu bob blwyddyn fel y nodir isod, tan ddiwedd oes y fanyleb.

Bydd Uned 1 ac Uned 2 ar gael ym mis Ionawr 2028 (ac ym mhob cyfres mis Mehefin a mis Ionawr wedi hynny).

Bydd Uned 3 ac Uned 4 ar gael am y tro cyntaf yn ystod haf 2029 (ac ym mhob cyfres mis Ionawr a mis Mehefin wedi hynny).

Rhaid cofrestru am unedau unigol drwy gyflwyno'r uned berthnasol sydd i'w gweld isod.

| | | Codau Cofrestru | |
|---|---|---|---|
| | | Cyfrwng Saesneg | Cyfrwng Cymraeg |
| Uned 1 | Prawf Sector | | |
| Uned 2 | Asesiad di-arholiad allanol | | |
| Uned 3 | Asesiad di-arholiad | | |
| Uned 4 | Asesiad di-arholiad | | |

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol ar gyfer yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais.

## 4.2. Cofrestru ar gyfer y cymhwyster

Bydd y cymhwyster yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn haf 2029.

Caiff ymgeiswyr eu cofrestru ar gyfer y cymhwyster drwy’r broses agregu (cyfnewid).

Nid yw'r broses agregu'n digwydd yn awtomatig; rhaid nodi'r cod perthnasol er mwyn agregu.

| | Cyfrwng Saesneg | Cyfrwng Cymraeg |
|---|---|---|
| Cod Cyfnewid | | |

Mae rhifyn cyfredol ein dogfen Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau yn rhoi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

DRAFT

## 4.3. Graddio ac adrodd yn ôl

Mae cymwysterau TAAU a'r unedau maen nhw'n eu cynnwys yn cael eu hadrodd ar raddfa chwe phwynt: Lefel 2
Rhagoriaeth* (L2RH*) Lefel 2 Rhagoriaeth (L2RH), Lefel 2 Teilyngdod (L2T), Lefel 2 Llwyddiant (L2LL), Lefel
1 Teilyngdod (L1T), Lefel 1 Llwyddiant (L1LL).

Adroddir canlyniadau unedau unigol ar raddfa marciau unffurf (GMU) ac maen nhw'n cyfateb i'r graddau canlynol:

| | Uchafs wm | L2RH* | L2RH | L2T | L2LL | L1T | L1LL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Uned 1 | 60 | 54 | 48 | 42 | 36 | 30 | 24 |
| Uned 2 | 60 | 54 | 48 | 42 | 36 | 30 | 24 |
| Uned 3 | 180 | 162 | 144 | 126 | 108 | 90 | 72 |
| Uned 4 | 180 | 162 | 144 | 126 | 108 | 90 | 72 |

Mae'r marciau unffurf a enillwyd am bob uned yn cael eu hadio at ei gilydd a bydd gradd y cymhwyster yn seiliedig ar y cyfanswm hwn.

| | Uchafs wm | L2RH* | L2RH | L2T | L2LL | L1T | L1LL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymhwyster | 300 | 270 | 240 | 210 | 180 | 150 | 120 |

Os nad yw ymgeiswyr yn ennill y nifer gofynnol o farciau unffurf i ennill Lefel 1 Llwyddiant yna cofnodir eu cyrhaeddiad fel U (annosbarthedig) ac ni fyddant yn derbyn tystysgrif.

## 4.4. Ailsefyll asesiadau unedau

Gall ymgeiswyr ailsefyll pob asesiad uned allanol (wedi'i farcio gan CBAC) ddwywaith (tri chynnig i gyd). Defnyddir y sgôr marciau unffurf gwell o'r tri chynnig i gyfrifo'r radd derfynol gyffredinol.

Gall ymgeiswyr ailsefyll pob asesiad uned mewnol (wedi'i farcio gan y ganolfan) unwaith (dau gynnig i gyd). Defnyddir y sgôr marciau unffurf gwell o'r ddau gynnig i gyfrifo'r radd derfynol gyffredinol.

Wrth ailsefyll asesiad, mae'n rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno asesiad newydd, wedi'i gwblhau o fewn yr un lefelau rheolaeth. Nid ydynt yn cael gwella gwaith a gyflwynwyd yn flaenorol.

Os bydd ymgeisydd wedi'i gofrestru ar gyfer asesiad ond ei fod yn absennol (a), nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais.

Os cofnodir bod ymgeisydd wedi cael '0' marc, yna tybir nad oedd y dystiolaeth a gynhyrchwyd i'w hasesu yn haeddu marciau; bydd hyn yn cyfrif fel ymgais.

Wrth ailsefyll asesiad, ar yr amod nad yw'r ymgeisydd wedi defnyddio mwy na'r nifer mwyaf o gynigion, bydd marciau o'r unedau eraill yn cael eu trosglwyddo.

Os bydd ymgeisydd yn mynd dros y nifer o gynigion ar gyfer unrhyw asesiad, yna bydd gofyn iddyn nhw ailwneud y cymhwyster.

© WJEC CBAC Ltd 2026

## 4.5. Ailwneud y cymhwyster

Os bydd ymgeisydd yn cofrestru am asesiad uned allanol (wedi'i farcio gan CBAC) am y pedwerydd tro neu asesiad uned mewnol (wedi'i farcio gan y ganolfan) am y trydydd tro, yna mae'n rhaid ailgofrestru ac ailsefyll pob asesiad.

Wrth ailwneud cymhwyster, gall ymgeisydd gael hyd at dri chynnig ar bob asesiad mewnol a hyd at dri chynnig ar bob asesiad allanol. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio canlyniadau o unedau a safwyd cyn ailsefyll wrth agregu'r radd (graddau) newydd.

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

## Atodiad A: Cyfleoedd i fewnblannu elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru

Mae'r tabl isod yn dangos ble mae'r cymhwyster yn cynnig cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru. Mae gwybodaeth fanylach wedi'i chynnwys yn y Canllawiau Addysgu: Canllawiau Cyflwyno'r Unedau.

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | Uned 1 | Uned 2 | Uned 3 | Uned 4 |
|---|---|---|---|---|
| Themâu Trawsbynciol | | | | |
| Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | 1.1.2, 1.2.1, 1.4.1 | 2.1.4, 2.2.2, 2.3.1 | 3.3.1, 3.3.2, 3.2.1 | 4.2.3, 4.4.1, 4.1.2 |
| Cynaliadwyedd | 1.1.3, 1.2.1, 1.4.1 | 2.3.1, 2.2.2 | 3.3.1, 3.3.2, 3.4.3 | 4.2.3, 4.1.2 |
| Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb | 1.2.1, 1.3.3, 1.4.1 | 2.2.1, 2.2.2 | 3.1.2, 3.1.4, 3.3.1 | 4.2.2, 4.1.2 |
| Addysg Hawliau Dynol | 1.2.1, 1.4.1, 1.1.3 | 2.2.1, 2.2.2 | 3.2, 3.3, 3.4.2 | 4.1.2, 4.2.2 |
| Profiadau sy'n Gysylltiedig â Gyrfaoedd a Gwaith | 1.3.1, 1.3.2, 1.3.3 | 2.3.1, 2.3.2 | 3.1, 3.4 | Pob adran |
| Sgiliau Trawsgwricwlaidd - Llythrennedd | | | | |
| Gwrando | Pob adran | | Pob adran | Pob adran |
| Darllen | Pob adran | | Pob adran | Pob adran |
| Siarad | Pob adran | | Pob adran | Pob adran |

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ysgrifennu | Pob adran | Pob adran | Pob adran | Pob adran |
| Sgiliau Trawsgwricwlaidd - Rhifedd | | | | |
| Datblygu Hyfedredd Mathemategol | 1.4.1, 1.1.3 | 2.3.2, 2.1.4 | 3.2.1, 3.2.2, 3.4.1, 3.4.2, 3.4.3 | 4.4.1, 4.2.3 |
| Mae deall y system rifau yn ein helpu ni i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau | 1.3.1, 1.4.1 | 2.1.4, 2.3.2 | 3.2.1, 3.2.2 | 4.4.1, 4.2.3, 4.3.1 |
| Mae dysgu am geometreg yn ein helpu ni i ddeall siâp, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli yn y byd go iawn | | | | |
| Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu ni i wneud casgliadau a phenderfyniadau gwybodus | 1.1.3, 1.4.1, 1.3.2 | 2.3.2 | 3.2.2, 3.4.2 | 4.4.1, 4.2.3, 4.3.1 |
| Cymhwysedd Digidol | | | | |
| Dinasyddiaeth | 1.1.3, 1.2.1, 1.4.1 | 2.1.4, 2.2.1, 2.2.2, 2.3.1 | 3.1.2, 3.3.3, 3.4 | 4.1.2, 4.3.1 |
| Rhyngweithio a Chydweithio | 1.3.3 | 2.3.1, 2.2.2 | 3.1.3, 3.3.1, 3.4.2 | 4.3.1, 4.2.2, 4.2.1 |
| Cynhyrchu | Pob adran | 2.2.2, 2.3.2 | 3.3, 3.4.3, 3.2.2 | 4.2.3, 4.3.1, 4.4.2 |
| Data a Meddwl Cyfrifiannol | 1.4.1, 1.1.3 | 2.3.2 | 3.2, 3.2.1, 3.4 | 4.4.1, 4.4.2 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| Sgiliau Cyfannol | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Creadigrwydd ac Arloesi | 1.1.1, 1.1.2, 1.1.3, 1.4.1 | 2.3.1, 2.2.2 | 3.3, 3.4.3 | 4.2.3, 4.4.2 |
| Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau | 1.1.3, 1.2.1, 1.4.1 | 2.1.4, 2.2.1, 2.2.2, 2.3.2 | 3.2, 3.4.2, 3.3.1 | 4.3.1, 4.4.1 |
| Cynllunio a Threfnu | 1.3.2 | 2.3.1, 2.3.2 | 3.3, 3.4.3, 3.2.1 | 4.2, 4.4.2 |
| Effeithiolrwydd Personol | 1.3.3, 1.4.1 | 2.1.1, 2.1.2, 2.1.3, 2.1.2, 2.2.1, 2.2.2 | 3.1.2, 3.3.3, 3.4 | 4.1, 4.4.2 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

FOR CENTRES IN WALES:
www.wjec.co.uk
Facebook - WJEC_CBAC
Twitter - @WJEC_CBAC
Instagram - @WJECforstudents

Email: info@wjec.co.uk
Telephone: 029 2026 5000